

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adroddiad Adolygu

Wedi'i danlinellu ac mewn coch = papur cefndir ar y wefan ochr yn ochr â'r Adroddiad Adolygu.

Cynllun Datblygu Lleol
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
(a Fabwysiadwyd Medi 2010)

Mehffin 2016

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

Cynnwys

A Nod yr Adroddiad hwn	3
B Sut y cafodd yr Adroddiad hwn ei baratoi	5
C A oes angen adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol?.....	7
D Beth mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn ei ddweud wrthym? .9	
Canfyddiadau allweddol	9
Mesur perfformiad yn erbyn dangosyddion	10
Meysydd o'r Cynllun nad ydynt yn gweithio'n dda	17
E A yw'r dystiolaeth sy'n sail i'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyfoes? ...	28
F Pa newidiadau cyd-destunol fu ers mabwysiadu'r Cynllun?.....	32
Cynlluniau Datblygu Lleol Cyfagos	32
Cyfraith Genedlaethol, Polisiau a Chynlluniau Datblygu Lleol eraill	34
Adroddiad Craffu ar weithgarwch economaidd	38
Hygyrchedd yng Nghefn Gwlad	38
Cynllun Addasu Niwglwl	39
G Arfarnu Cynaliadwyedd ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd	39
H Y Camau Nesaf.....	41
I Rhestr Termau.....	43

1. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfnodau ddim mwy na 4 blynedd o'r adeg pan gafodd y cynllun ei fabwysiadu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesu rheolaidd a chynhwysfawr yn cael ei wneud i weld a yw'r cynllun yn parhau i fod yn gyfredol neu a oes angen gwneud newidiadau. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu fis Medi 2010. Mae'r adran monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig bod adolygiad llawn o'r Cynllun yn cael ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-2015. Mae'r Awdurdod wedi bod yn aros am i'r canllawiau ar reoliadau Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi ar y broses adolygu a diwygio. Cyhoeddwyd hwn fis Awst 2015. Lunio'r adroddiad hwn a diweddarau'r dystiolaeth ategol yw'r cam cyntaf yn y broses honno.
2. Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi'r meysydd lle mae'r Cynllun yn cael ei gyflawni, meysydd lle mae angen ei newid a pham, y prif faterion a'r effaith ar y strategaeth, y polisiau, safleoedd, a'r cydberthynas rhyngddynt. Bydd Cynllun newydd yn cael ei baratoi. Wrth i'r camau drwy'r broses o Adolygu'r Cynllun gael eu cymryd, bydd y cydberthynas hwn yn cael ei archwilio a'i ddatblygu ymhellach wrth i newidiadau arfaethedig gael eu clustnodi ac wrth i'w cynaliadwyedd gael ei asesu.
3. Hefyd mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi'r sail tystiolaeth sydd wedi cael ei ystyried drwy grynhoi'r canlynol;
 - y canfyddiadau allweddol yn yr [Adroddiadau Monitro Blynnyddol](#) a gyhoeddwyd (gan gynnwys materion sy'n codi o fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd);
 - y dystiolaeth a gasglwyd drwy [dystiolaeth arolwg](#) a ddiweddarwyd a dangosyddion cyd-destunol cymwys, gan gynnwys newidiadau perthnasol i bolisiau cenedlaethol.
4. Mae'r sail tystiolaeth wedi cael ei asesu yn erbyn y profion cadernid. Bydd tystiolaeth yn cael ei diweddarau a'i diwygio yn ôl yr angen wrth i'r Cynllun newydd fynd rhagddo i'w fabwysiadu. Mae'r [Papur Cefndir ar Sail Tystiolaeth Sensitifrwydd](#) yn amlygu lle gall elfennau pellach o'r sail tystiolaeth newid neu gael eu diweddarau drwy'r broses adolygu.
5. Mae'n ofynnol i'r Adroddiad Adolygu beidio â manylu newidiadau all gael eu gwneud i'r Cynllun fel nad yw'n achub y blaen ar ganlyniad y Cynllun diwygiedig.

6. Mae'r Adroddiad Adolygu yn dod i'r casgliad bod angen gwneud adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn nodi'r weithdrefn y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei dilyn.
7. Hefyd nodir y cyrff a'r sefydliadau eraill y bu'r Awdurdod yn ymgysylltu â hwy wrth baratoi'r adroddiad hwn.
8. Bydd goblygiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael eu clustnodi ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r polisïau yn nes ymlaen. Ar hyn o bryd gall yr Adroddiad Adolygu ond clustnodi meysydd i'w newid yn hytrach na sut y bydd y Cynllun yn cael ei newid. Felly, ni all goblygiadau'r arfarniad o gynaliadwyedd gael eu clustnodi mewn unrhyw fodd ystyrlon.
9. Wrth baratoi neu adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol rhaid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sicrhau bod y Cynllun yn cael ei baratoi yn gywir a'i fod yn bodloni'r 3 prawf cadernid¹:
 - A yw'r Cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau eraill? (h.y. a yw'n glir bod y Cynllun yn gyson â Chynlluniau eraill?)
 - A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yn sgîl y dystiolaeth?)
 - A fydd y Cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)Lle mae newid yn cael ei glustnodi, bod y rhesymau am y newid yn cynnwys cyfeiriad at y prawf/proffion cadernid mwyaf cymwys sydd wedi llywio'r angen am newid.²
10. Yn olaf, mae'r Adroddiad yn nodi'r camau nesaf wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.
11. Bydd unrhyw newid arfaethedig mewn polisi yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â pholisi, canllawiau a rheoliadau cenedlaethol. Gall polisïau gael eu hychwanegu yn y pen draw, eu diwygio neu eu dileu o'r Cynllun gan yr Arolygydd penodedig. Bydd yr Awdurdod yn dilyn y cyngor a ddarperir yn adran 2.8 o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 Ionawr 2016 wrth ystyried statws y Cynllun newydd sy'n dod i'r amlwg.

¹ Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i Gynllun Datblygu Lleol gael ei bennu yn gynllun 'cadarn' gan yr Arolygydd archwilio (Adran 64 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004). Mae'r proffion cadernid a'r gwiriadau yn cael eu clustnodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8, Ionawr 2016, Pennod 2 ac yn y Llawlyfr ar Gynllun Datblygu Lleol Pennod 8.

² Llawlyfr ar Gynllun Datblygu Lleol Argraffiad 2 Awst 2015: <http://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?lang=en>

B Sut y cafodd yr Adroddiad hwn ei baratoi

12. Cafodd yr adroddiad ei baratoi drwy:

- Adolygu sail tystiolaeth y Cynllun (Papurau Cefndir, Adroddiadau Ymchwil a gomisiynwyd ac ati). Gweler [gwefan](#) yr Awdurdod.
- Cynnal cyfres o weithdai gydag Aelodau'r Awdurdod
- Adolygu'r newidiadau i Bolisiâu Cynllunio Cenedlaethol
- Ystyried newidiadau cyd-destunol, megis Cynlluniau Datblygu Lleol cyfagos a fabwysiadwyd yn fwy diweddar
- Adolygu'r Adroddiadau Monitro Blynyddol a baratowyd rhwng 2011 a 2015. Gweler [gwefan yr Awdurdod](#).
- Mewnbwn gan wahanol randdeiliaid mewn perthynas â'r uchod – mae rhagor o fanylion isod.

Tabl 1: Trosolwg o'r ymgysylltu ag eraill hyd yn hyn

Pwy?	Sut?
Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Canlyniadau'r Pwyllgor Craffu ar bynciau penodol ▪ Cyfres o weithdai yn seiliedig ar bwnc y Cynllun Datblygu Lleol ▪ Cyfle i wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft
Cyngor Sir Penfro	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyswllt uniongyrchol â swyddogion perthnasol³ ar gyfer diweddariadau ffeithiol ▪ Cyfarfodydd swyddogion ▪ Adolygiad gan gymheiriaid o'r sail tystiolaeth ▪ Cyfle i wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft
Gweithgor Tai Fforddiadwy	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfarfodydd Swyddogion gyda Chymdeithasau Tai ac Awdurdod Tai ▪ Cyfle i wneud sylwadau ar y meysydd y bwriedir eu newid a glustnodwyd yn yr Adroddiad Adolygu
Cyfoeth Naturiol Cymru	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyswllt uniongyrchol â swyddogion perthnasol ar gyfer diweddariadau ffeithiol ▪ Cyfarfodydd swyddogion ▪ Adolygiad technegol o'r sail tystiolaeth ▪ Cyfle i wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft
Dŵr Cymru	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyswllt uniongyrchol â swyddogion perthnasol ar gyfer diweddariadau ffeithiol ▪ Cyfle i wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu

³ Mae hyn yn cynnwys Swyddogion sydd â chyfrifoldebau am: Cynllunio Datblygu, Awdurdod Prifffyrdd, Datblygu Economaidd, Tai, Draenio ac Amddiffynfeydd Arfordirol, Cyfleusterau Cymunedol, Gwastraff.

Pwy?	Sut?
	drafft
Grwpiau Mwynau Rhanbarthol a Chynllunio Gwastraff	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyswllt uniongyrchol â swyddogion perthnasol ar gyfer diweddariadau ffeithiol ▪ Cyfarfodydd swyddogion ▪ Adolygiad technegol o'r sail tystiolaeth
Awdurdodau Cynllunio cyfagos gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Cymru	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Adolygiad gan gymheiriaid o'r sail tystiolaeth ▪ Cyfle i wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft
Tirfeddianwyr safleoedd a ddynodwyd ar gyfer datblygu.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfarfodydd, gohebiaeth a galwadau ffôn i drafod y camau ymlaen o ran cyflwyno safle.
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gofyn am sylwadau ar Bapurau Cefndir perthnasol
Cynghorau Tref a Chymuned	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Arolwg o gyfleusterau cymunedol ▪ Cyfarfodydd ar gais i gyflwyno gwybodaeth ar yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol • 4 Digwyddiad Ymgysylltu â'r Gymuned Ebrill 2016
Ymgysylltu â'r Rhanddeiliaid/Ennyn Ymwybyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiad cyffredinol i'r Rhanddeiliaid yn Llanion • Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro • Rhwydwaith Ynni Cymunedol PLANED • Panel Busnes Sir Benfro
Ymgynghori â'r cyhoedd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd ar Adroddiadau Monitro Blynyddol. • Ymgynghori'n anffurfiol ar y Cytundeb Cyflawni • Ymgynghori'n anffurfiol ar yr Adroddiad Adolygu • Ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd ar yr Adroddiad ar Arfarnu Cwmpas Cynaliadwyedd

13. Oes, mae angen i'r Cynllun gael ei adolygu am y rhesymau canlynol:
- Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol o leiaf bob 4 blynedd.
 - Mae'r adran monitro ac adolygu yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig bod adolygiad llawn o'r Cynllun yn cael ei wneud ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-2015.⁴
 - Mae canfyddiadau'r [Adroddiadau Monitro Blynyddol](#) ar gyfer y cyfnodau Medi 2010 i fis Mawrth 2011, Ebrill 2012 i fis Mawrth 2013, Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014 ac Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015 ynghyd ag adolygiad llawn o dystiolaeth wreiddiol y Cynllun Datblygu Lleol ([Papurau Cefndir](#)) wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r cyhoeddiad hwn. Maent yn nodi meysydd sy'n sylfaenol i'r strategaeth gyffredinol lle nad yw'r Cynllun yn cael ei gyflawni mor foddhaol ag y rhagwelwyd gan yr Awdurdod.
14. Am y rhesymau hyn daethpwyd i'r casgliad bod adolygiad llawn o'r Cynllun yn briodol (yn hytrach na gweithdrefn ffurf-fer sy'n caniatáu ystyried rhannau penodol o'r Cynllun).
15. Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu â sefydliadau, cyrff ac unigolion eraill i ddiweddarau dystiolaeth gefndir y Cynllun ac i baratoi'r Adroddiad Adolygu hwn. Mae Tabl 1 uchod yn nodi pwy a sut y mae eraill wedi bod yn ymwneud â'r broses hyd yn hyn.
16. Mae Cytundeb Cyflawni hefyd yn cael ei baratoi fydd yn rhoi manylion am y modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd yn rhoi manylion am y camau o wneud y gwaith a pha bryd a sut y gall gwahanol grwpiau, sefydliadau ac unigolion gymryd rhan. Bydd hefyd yn pennu amserlen yn manylu pa mor hir y rhagwelir y bydd pob cam yn ei gymryd a faint o amser y bydd yn cael ei neilltuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae'r prif gamau yn y broses wedi'u nodi isod:

⁴ Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Pennod 5, Rhan 6, Cymru, Cynlluniau Adran 69, yn nodi bod rhaid i awdurdod cynllunio lleol gynnal adolygiad o'i gynllun datblygu lleol ar yr adegau y bydd y cynulliad yn eu rhagnodi. Mae Adran 70(2)(b) yn nodi bod rhaid i'r awdurdod baratoi adolygiad o gynllun datblygu lleol os, yn dilyn adolygiad o dan Adran 69, eu bod o'r farn y dylai'r cynllun gael ei adolygu. Mae'r Rheoliadau Offeryn Statudol Cymru 2005 Rhif 2839 Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 Adran 41 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol gychwyn gwneud adolygiad llawn o'i Gynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd o'r dyddiad y mabwysiadwyd y cynllun yn wreiddiol.

Tabl 2 Prif Gamau'r Gwaith o Baratoi'r Cynllun




Cam	Prif ddiben
Adroddiad Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> • Clustnodi'r rhannau o'r Cynllun Datblygu Lleol y mae angen eu diwygio. • Cyhoeddi papurau cefndir (sail tystiolaeth) i ategu'r adolygu.
Cytundeb Cyflawni	<ul style="list-style-type: none"> • Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. • Cynllun Cynnwys y Gymuned sy'n amlinellu egwyddorion ymgysylltu â'r gymuned.
Rydyn ni yma → Safleoedd Ymgeisiol	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi meini prawf ar gyfer dewis safle. • Gwahodd cyflwyno safle.
Strategaeth a Ffeirir	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r polisiau strategol allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol • Clustnodi safleoedd sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth
Cynllun Adneuo	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi a chyhoeddi'r polisiau manwl a'r map cynigion.
Cyflwyno	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r Cynllun a'r dystiolaeth ategol i'r Arolygiaeth Gynllunio.
Archwilio	<ul style="list-style-type: none"> • Arolygydd annibynnol yn asesu cademid y Cynllun.
Mabwysiadu	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Cynllun ac yn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

D Beth mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn ei ddweud wrthym?

Canfyddiadau allweddol

17. Mae'r Awdurdod wedi paratoi pedwar [Adroddiad Monitro Blynyddol](#) ers i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu yn 2010.
18. Mae'r adroddiadau monitro hyn yn asesu i ba raddau y mae strategaeth, polisiau a safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cael eu nodi ar ddechrau pob Adroddiad.
19. Gan ystyried pob un o'r pedwar adroddiad monitro blynyddol, ceir crynodeb isod o'r meysydd lle mae'r Cynllun yn cyflawni a hefyd lle nad yw'r Cynllun yn cyflawni.
20. Mae'r Cynllun yn clustnodi 17 o ganlyniadau allweddol i'w cyflawni erbyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. 2021). Mae tri deg saith o ddangosyddion a thargedau yn cael eu grwpio o dan y canlyniadau hyn i brofi perfformiad y Cynllun.

Tabl 3: Detholiad o Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol Blynyddol 2015

Targed	Nifer y Dangosyddion	
Targedau / amcanion yn cael eu cyflawni.	31	
Y targedau heb eu cyflawni neu berfformiad gwael, ond nad oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisiau / amcanion - gweler isod am grynodedd o'r materion.	2	
Monitro yn dangos maes pryder am weithredu'r polisiau / amcanion.	4	

21. Darperir manylion ar berfformiad hyd yma o dan bob un o'r canlyniadau isod.
22. Yn gryno, yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2015 mae 31 o'r 37 o dargedau ac amcanion y Cynllun yn cael eu bodloni. Mae yna faterion yn codi gyda 6, a rhai ohonynt yn sylfaenol i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol. Y materion hyn yw tai a darparu tai fforddiadwy, a chyflwyno dyraniadau eraill o dir. Mae'r flwyddyn y mae'r mater yn dod i'r amlwg gyntaf yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol perthnasol hefyd yn cael ei nodi. Mae'r materion o bob Adroddiad Monitro felly yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad isod.

⁵ Mae'r materion a amlgir yn y pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol y mae angen gweithredu arnynt drwy adolygu'r Cynllun yn cael eu clustnodi.

23. Mae rhan gyntaf y bennod hon yn rhoi crynodeb o'r meysydd y llwyddir i gyflawni a'r meysydd o danberfformio. Mae'r ail ran yn rhoi manylion pellach am y meysydd lle nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyflawni. Rhoddir sylwadau a phwyntiau gweithredu am y cyfnod dros-dro ac am y cyfnod adolygu ar gyfer y meysydd hynny sy'n tanberfformio.

Mesur perfformiad yn erbyn dangosyddion

24. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi Gweledigaeth ac Amcanion i'w cyflawni erbyn y dyddiad y daw'r Cynllun i ben (sef 2021 ar hyn o bryd). Nodir isod y canlyniadau allweddol ar gyfer pob adran o'r Cynllun, ac yna tabl sy'n nodi'r dangosyddion gyda thargedau i gyflawni sydd gyda'i gilydd yn fodd o fesur effeithiau strategaethau a pholisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun. O'r gyfres ganlynol o dablau, mae'n bosibl clustnodi pa agweddau ar y Cynllun sydd yn unol â'r targed a pha rai y mae angen eu hailasesu drwy'r broses adolygu.

Dibenion a Dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol a'r Strategaeth Ofodol

Canlyniadau'r Cynllun

- Bod y datblygu yn digwydd yn unol â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
- Bod y datblygu a ganiateir yn gymorth i gynnal cymunedau lleol - er enghraifft drwy sicrhau bod elfen sylweddol yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy neu'n darparu cyfleoedd cyflogaeth.

Tabl 4 Perfformiad at Ddibenion, Dyletswyddau a Strategaeth

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Pob un	1: Cymeradwyaeth yn groes i argymhelliad	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Dibenion a Dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol	2: Datblygiadau sy'n ymwneud ag Egwyddor Sandiford - lle mae gwrthdaro rhwng 2 Ddiben y Parc Cenedlaethol yn dod yn ddwys, rhaid i'r cyntaf fod yn drechaf. Rhaid i gyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn unol â dibenion Polisi 1.	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Economi Ymwelwyr	3a: Blaenoriaethu tai fforddiadwy dros ddatblygiad hunan-ddarpar o dan amgylchiadau penodol.	Cymeradwyo 2 gais yn groes i Bolisi 35c mewn unrhyw flwyddyn		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Cyflogaeth a Thai	3b: Yr angen i flaenoriaethu defnydd cymunedol neu dai fforddiadwy wrth aildefnyddio	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.

	safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnydd arall.			
Strategaeth Ofodol – tref i gefn gwlad	4: Effeithiolrwydd polisiau 2 i 7 pan ddefnyddir hwy mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiau na'r canllawiau cynllunio atodol.		Targed wedi ei gyrraedd. (Mae datblygu yng nghefn gwlad yn cael ei ystyried yn erbyn y gallu i gael mynediad i'r safle heb ddefnyddio car preifat, a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol yn yr adran ar Hygyrchedd. Mae gweithredu hyn yn her, a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses Adolygu.) (Mae manylion pellach yn Adran F.)

Nodweddion Arbennig

Canlyniadau'r Cynllun

- a) Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi cael eu diogelu a'u gwella.

Tabl 5 Perfformiad ar gyfer Nodweddion Arbennig

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Nodweddion Arbennig	5: Cymeradwyaeth yn groes i bolisi strategaeth 8, Nodweddion Arbennig.	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Polisiau 1 ac 8 i 18 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol	6: Effeithiolrwydd Polisiau 1 ac 8 i 18 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar: Gymeriad y dirwedd, Cynigion Ardal Gadwraeth, Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol a'r Amgylchedd Hanesyddol - wrth ymdrin â cheisiadau mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiau na'r canllawiau cynllunio atodol.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisiau hyn.

Datblygiad Mawr a'r potensial ar gyfer twf

Canlyniadau

- a) Dim datblygiad mawr newydd yn y Parc Cenedlaethol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
- b) Darparu cyfleusterau gwastraff i ateb anghenion y Parc Cenedlaethol neu i weithio gyda'r Cyngor Sir i ddarparu cyfleusterau gwastraff sy'n gwasanaethu'r ddwy ardal y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Tabl 6 Perfformiad ar gyfer Datblygiad Mawr a'r potensial ar gyfer twf

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Datblygiad	7: Caniateir ceisiadau datblygu mawr	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder

mawr	dim ond os ydynt yn bodloni'r profion polisi cynllunio cenedlaethol.		ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Mwynau	8: Caniateir ceisiadau am safleoedd mwynau newydd dim ond os ydynt yn bodloni'r profion polisi cynllunio cenedlaethol.	0	Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Gwastraff	33: Mae maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.	1.5 hectar neu 100% (os na ddarperir ar gyfer y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar y cyd â Chyngor Sir Penfro..	Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Datblygiad mawr	9: Effeithiolrwydd polisiau 19-28 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar ansefydlogrwydd tir o'r gweithfeydd glo a Diogelu mwynau - wrth ymdrin â cheisiadau mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiau na'r canllawiau cynllunio atodol.	Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisiau hyn.

Newid yn yr Hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

Canlyniadau

- a) Datblygiadau yn cyrraedd safonau uchel o ran dyluniad cynaliadwy gyda phob annedd newydd yn bodloni'r safonau a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol.
- b) Y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- a) Dim datblygiad lle mae risg uchel⁶ mewn ardaloedd fyddai mewn perygl o lifogydd yn awr ac yn y tymor hir a heb unrhyw effeithiau negyddol rywle arall.

Tabl 7 Perfformiad o ran Newid yn yr Hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Ynni adnewyddadwy	12a: Capasiti cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir ac a gwblhawyd.	Caniatâd cynllunio i gyfrannu at darged cyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 4.91GWh.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn. Mae polisi'r Awdurdod ar ganiatáu cynlluniau ynni adnewyddadwy yn cyrraedd ei darged ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy a sicrhau bod cynigion yn gyson â chanllawiau'r Awdurdod ar ynni adnewyddadwy.
Ynni adnewyddadwy	12b: Cyflawni targedau gwres adnewyddadwy.	Caniatâd cynllunio i gyfrannu at darged Gwres Adnewyddadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 26GWh.	Adroddiad Monitro Blyneddol 2012	Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed yn bennaf oherwydd y cyfraniad sylweddol y disgwyliid i biomas ei wneud ond nad oedd modd ei gyfrif yn y ffigurau gan ei fod yn gyffredinol yn mwynhau hawliau datblygu a ganiateir. Golygir bod y polisi yn perfformio'n dda a dim ond targed y dangosydd sydd angen ei newid
Canllawiau	12c: Canllawiau cynllunio	Mae pob		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder

⁶Diffinnir 'Datblygiad risg uchel' yn Nodyn Technegol 15: Datblygiad a Risg Llifogydd ar lifogydd, gweler Ffigur 2 tudalen 7: cyswllt gwefan [http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/40382/403821/\(560\)_july04-tan15-e.pdf?lang=en](http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/epc/planning/403821/40382/403821/(560)_july04-tan15-e.pdf?lang=en)

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Ynni adnewyddadwy	atodol ar: Ynni Adnewyddadwy ac Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar y Dirwedd ac Amwynder Gweledol.	penderfyniad a wneir yn gyson â'r canllawiau hyn.		ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Llifogydd	13: Maint y datblygiad a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir heb fodloni profion TAN15.	Ni chaniateir datblygiad lle byddai'r senario tymor hir yn methu profion TAN15.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Tir oedd gynt yn dir datblygu	14: Canran y datblygiadau a ganiateir ar dir oedd eisoes wedi'i ddatblygu.	33% o'r tir ar gyfer codi tai ar dir oedd eisoes wedi'i ddatblygu. 45% o'r tir ar gyfer cyflogaeth ar dir oedd eisoes wedi'i ddatblygu.		Targed wedi ei gyrraedd ar gyfer datblygiadau tai a chyflogaeth ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn. Mae'r Cynllun ar y blaen â'r targed yn y ddau achos.
Newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd ac ynni cynaliadwy	15: Effeithiolrwydd polisiau 29-34 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar (y Canllawiau Dylunio Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy) mewn apeliadau ac wrth ymdrin â cheisiadau mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiau na'r canllawiau cynllunio atodol.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisiau hyn.

Economi Ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

Canlyniadau

- Safleoedd cyflogaeth newydd, byw/gweithio a defnydd cymysg a ddarparwyd (amcangyfrifir 5.6 hectar) a safleoedd presennol wedi'u diogelu.
- Amrywiaeth o lety gwyliau ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol ymwelwyr.
- Nid yw gweithgareddau hamdden a gweithgareddau ymwelwyr yn niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Tabl 8 Perfformiad ar gyfer Economi Ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Safleoedd cyflogaeth	17: Colli safleoedd cyflogaeth	0 wedi'u cymeradwyo, ac eithrio lle cyfiawnheir o fewn telerau'r polisi.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r

				polisi hwn.
Llety ymwelwyr	18: Cynnal lefelau presennol o lety gwyliau ac eithrio lle mae cyfiawnhad wedi'i brofi.	Cynnal lefelau presennol ac eithrio lle mae newid yn cael ei brofi.		Targed wedi ei gyrraedd. Mae'r polisi hirsefydlog o atal safleoedd carafanau a gweryslla yn cael ei brofi fwyfwy gan ddatblygiadau heb ganiatâd yn cael tystysgrif defnydd cyfreithlon. Mae astudiaeth wedi'i gynnal i asesu capasiti tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymgorffori datblygiadau pellach o'r math hwn. Hefyd mae galw cynyddol am safleoedd newydd ac estynedig.
Nodweddion arbennig	19: Cynigion ar gyfer gweithgareddau hamdden yn groes i Bolisi 8.	0 wedi'u cymeradwyo		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Economi ymwelwyr, cyfogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad	20: Effeithiolrwydd polisiau 35-43 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Weithgareddau Hamdden a Cholli Gwestai wrth ymdrin â cheisiadau mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiau na'r canllawiau cynllunio atodol.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisiau hyn

Tai fforddiadwy a thwf tai

Canlyniadau

- Amcangyfrifir bod 1,600 o dai newydd yn cael eu darparu y mae o leiaf 530 ohonynt yn dai fforddiadwy newydd.
- Os erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15 bod nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd neu sy'n cael eu hadeiladu yn is nag 80% o gyfran y targed cyffredinol ar gyfer cyfnod y Cynllun ddylai fod ar gael erbyn y dyddiad hwnnw, bydd yr Awdurdod yn dechrau adolygiad yn syth o'r Polisi Strategaeth Tai Fforddiadwy.
- Bod dwysedd uwch o ddatblygiadau yn cael ei gyflawni - lleiafswm o 30 annedd yr hectar yn y Canolfannau a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Tabl 9 Perfformiad ar gyfer Tai Fforddiadwy a Thwf Tai

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Tai	21: Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar hyn o bryd.	Cyflenwad o 5 mlynedd man lleiaf	Adroddiad Monitro Blynyddol 2012	Nid yw'r Awdurdod wedi cyflenwi tir am 5 mlynedd ers i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu, ac mae'r gostyngiad parhaus yn y cyflenwad i'w briodoli i nifer o ffactorau, y mwyaf cyffredin yw diffyg diddordeb gan dirfeddianwyr i ddatblygu eu dyraniadau tir yn y tymor byr a'r tymor canolog. Bydd angen i'r Awdurdod adolygu'r dyraniadau tir ar gyfer tai.
Tai	22: Nifer y tai fforddiadwy a'r tai ychwanegol ar y farchnad yn gyffredinol a adeiladwyd.	530 o dai fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun. Adeiladu 1000	Adroddiad Monitro Blynyddol 2012	Er bod diddordeb mewn datblygu safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar, ynghyd â chynnydd mewn cyflwyno safleoedd i'w datblygu ar raddfa fach, hapfasnachol, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y cyfraddau cwblhau

		o dai ar y farchnad yn gyffredinol, sef cyfanswm o 90 y flwyddyn i'w cwblhau.		gwael ar ddechrau cyfnod y Cynllun. Bydd angen i'r Awdurdod adolygu'r cyflenwad tir ar gyfer tai er mwyn sicrhau bod digon ar gael i ddiwallu amserlen y Cynllun newydd (2031).
Cyflwyno safleoedd i'w neilltuo	23: Nifer y datblygiadau, gan gynnwys tai, a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun fel canran o'r hyn a neilltuwyd yn y Cynllun a chanran o gyfanswm y datblygiadau a ganiateir.	Safleoedd a neilltuwyd – 100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun ar safleoedd a neilltuwyd.	Tai (a) ⁷ Cyflogaeth /Defnydd cymysg (b) ⁸ Cyfeusterau Cymunedol (c) Cynlluniau Ffyrdd a Beicio (d) ⁹	Bydd angen mynd i'r afael drwy'r Cynllun Adolygu â'r gyfradd isel o ddatblygiadau ar safleoedd tai a chyflogaeth/defnydd cymysg hyd yn hyn fel y nodir uchod. Mae'r cynlluniau ffyrdd a beicio yn cael eu rhestru yn y Cynllun a chynigion awdurdodau neu gyrrff eraill ydynt. Mae rhai o'r cynlluniau hyn wedi dyddio neu wedi cael eu disodli. Bydd gofyn diweddarau hyn yn y Cynllun Diwygiedig.
Dwysedd tai	24: Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd y Cynllun Datblygu.	30 yr hectar yn y Canolfannau yn y Cynllun.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Tai fforddiadwy a thwf tai	25: Effeithiolrwydd polisiau 44 i 47 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy a Datblygiadau wrth ymdrin â cheisiadau mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiau na'r canllawiau cynllunio atodol.		Targed wedi ei gyrraedd. Mae manylion uchod am y materion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd y rhan hon o'r Cynllun.

⁷ Adroddiad Monitro Blynyddol 2014

⁸ Adroddiad Monitro Blynyddol 2014

⁹ Adroddiad Monitro Blynyddol 2014

Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu a Thrafnidiaeth

Canlyniadau

- a) Cyfleusterau cymunedol presennol yn cael eu diogelu a gwell darpariaeth.
- b) Canolfannau manwerthu y Parc Cenedlaethol yn ffynnu ac yn amrywiol.
- c) Cynigion allai o bosibl fod wedi peri pryderon sylweddol ynghylch traffig wedi eu hosgoi.

Tabl 10 Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu a Thrafnidiaeth

Maes Polisi	Dangosydd	Targed	Perfformiad	Sylwadau
Cyfleusterau cymunedol	26: Nifer a gymeradwywyd am gollu cyfleusterau cymunedol.	0 oni bai y gellir ei gyfiawnhau gan fframwaith polisi		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Cyfleusterau cymunedol	27: Nifer y rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer cyfleusterau cymunedol a sicrhawyd o ddatblygiadau.	Cytundebau Adran 106 a sicrhawyd yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Tir glas a mannau agored	28: Maint y tir glas a mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau sydd heb eu neilltuo yn y Cynllun.	Tir glas – 0%, ac eithrio ar gyfer tai fforddiadwy neu ddarparu cyfleuster cymunedol. Mannau agored – 0%, oni bai y gellir ei gyfiawnhau gan fframwaith polisi.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Manwerthu	30: Canran o arwynebedd llawr gwag manwerthu.	Dim mwy na 10%		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Trafnidiaeth	31: Cymeradwyaeth ar gyfer datblygiadau heb ddarparu mynediad i gerbydau, beicwyr a cherddwyr.	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Effeithiau trafndiaeth	32: Cymeradwyaeth ar gyfer datblygiadau sy'n peri pryderon sylweddol ynghylch effeithiau posibl trafndiaeth	0		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisi hwn.
Cyfleusterau cymunedol, manwerthu a thrafnidiaeth	34: Effeithiolrwydd polisiâu 48 i 56 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau wrth ymdrin â cheisiadau mewn apêl.	Nid yw Arolygydd yn codi materion ynghylch effeithiolrwydd y polisiâu na'r canllawiau cynllunio atodol ategol.		Targed wedi ei gyrraedd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisiâu hyn

Meysydd o'r Cynllun nad ydynt yn gweithio'n dda

25. Mae'r adran hon yn disgrifio'n fwy manwl lle mae materion tanberfformio wedi cael eu clustnodi drwy'r pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol fel y nodir yn y crynodeb uchod. Mae'r mater y mae angen mynd i'r afael ag ef yn cael ei glustnodi ynghyd â'r elfennau o'r Cynllun sy'n debygol o gael eu heffeithio, a'r modd y mae'r angen i fynd i'r afael â'r profion cadernid penodol wedi helpu i lywio'r angen am newid.
26. Ar gyfer ardaloedd gwledig yn bennaf, mae graddfa ofodol ardaloedd unigol o newid yn annhebygol o fod yn sylweddol. Ar gyfer yr ardaloedd hyn efallai y bydd lle i ystyried opsiynau am "strategaeth wledig" mwy cyffredinol. Gallai hyn ystyried opsiynau polisi eang ac egwyddorion mewn perthynas â materion megis tai fforddiadwy, dyraniadau graddfa pentref, rôl a datblygiad trefi marchnad, ffermydd yn arallgyfeirio, hierarchaeth aneddiadau a rolau o ran darparu gwasanaethau, ac yn y blaen.¹⁰ Dyma'r dull a ddefnyddiwyd wrth ddrafftio'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, a bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau gyda'r dull hwn drwy'r broses o adolygu'r Cynllun.

Cyflenwad Tir ar gyfer Codi Tai


27. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddangos bod ganddynt gyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer codi tai dros gyfnod o bum mlynedd. Y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrif y cyflenwad yw'r 'dull gweddilliol'.

Tabl 11 Dull Gweddilliol

Y DULL GWEDDILLIOL	
a.	Defnyddio nifer y tai sydd eu hangen dros gyfnod y Cynllun (sef y nifer a glustnodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol);
b.	Tynnu nifer y tai sydd eisoes wedi'u hadeiladu;
c.	Rhannu'r swm hwn gan nifer y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynllun. Mae hyn yn rhoi'r nifer sy'n ofynnol mewn blwyddyn;
d.	Lluosi'r nifer â 5 i roi'r nifer sy'n ofynnol dros 5 mlynedd;
e.	Gweithio allan faint o dai ellir eu hadeiladu mewn 5 mlynedd (h.y. dim cyfyngiadau ffisegol a'r tirberchennog neu ddatblygwr yn barod i ddod â safle vmlaen i'w ddatblvau);

28. Mae'r graff canlynol yn dangos nad yw'r Parc Cenedlaethol wedi cael cyflenwad tir dros 5 mlynedd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu fis Medi 2010.

¹⁰ : Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Awst paragraff 6.2.3.4, tudalen 64



29. Mae nifer o wahanol ffactorau yn gyfrifol am y gostyngiad parhaus yn y cyflenwad tir, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain yw diffyg diddordeb gan dirfeddianwyr sy'n dymuno datblygu eu tir yn y tymor byr a chanolig. Er bod diddordeb mewn datblygu safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar gyda nifer o ymholiadau cyn ymgeisio a cheisiadau cynllunio a wnaed i'r Awdurdod, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y cyfraddau cwblhau gwael ar ddechrau cyfnod y Cynllun. Roedd yr Awdurdod wedi llunio Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ar Dai Fforddiadwy, i helpu i ddod â safleoedd ymlaen, fis Tachwedd 2014.
30. Hefyd bydd angen i'r Awdurdod adolygu'r cyflenwad tir ar gyfer tai er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn ddigonol i gwrdd ag amserlen y Cynllun newydd (2031)¹¹, yn ogystal â sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i ddatblygiad y safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun ac i allu pennu amserlen pan all cyfyngiadau gael eu goresgyn.

Sut mae hyn yn effeithio ar Strategaeth y Cynllun

31. Mae'r cyfraddau isel o adeiladu ar ddechrau cyfnod y Cynllun yn golygu na fydd y cyfan o'r tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiadau tai newydd yn cael ei ddefnyddio cyn diwedd y Cynllun, sef 2021, ac nid yw'r targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn cael eu cyrraedd.
32. Mae'r rhagolygon poblogaeth yn strategaeth dai y Cynllun yn dangos gostyngiad bach yn nifer y bobl sy'n byw yn y Parc dros gyfnod y Cynllun. Heb unrhyw reswm i neilltuo tir ar gyfer tai i gartrefu poblogaeth gynyddol, serch hynny mae dal angen i adeiladu mwy o dai fforddiadwy. Mae angen i'r gyfran o dai fforddiadwy i dai ar y farchnad amlygu gofynion tai yn y Parc

¹¹ Gweler yr adran 'A yw'r dystiolaeth y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig arno yn gyfoes?' sy'n egluro'r gofyniad hwn.

Cenedlaethol yn well. Mae angen tai ar y farchnad i gynorthwyo traws-gymorthdalur ddarpariaeth tai fforddiadwy gan fod y nifer sydd ei angen yn llawer mwy nag y gellir ei ddarparu gan arian cyhoeddus yn unig.

33. Mae angen adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol gan y bydd angen i'r Awdurdod adolygu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn ddigonol i gwrdd ag amserlen y Cynllun newydd (2031), a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i'r gwaith o ddatblygu'r safleoedd sydd wedi'u neilltuo yn y Cynllun, ac er mwyn gallu pennu amserlen y gellir goresgyn cyfyngiadau. Bydd hyn yn golygu bod angen adolygu'r ffigurau darparu tai, paratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol ac adolygu'r gofynion tai fforddiadwy. Mae gan hyn oblygiadau posibl i lawer o'r Canolfannau a glustnodwyd yn y Parc Cenedlaethol ac felly mae angen adolygiad llawn yn hytrach nag adolygiad rhannol.

Mae angen y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol	
1	<i>A yw'r Cynllun yn ystyried polisi cenedlaethol?</i>
2	<i>A yw'n ceisio bodloni anghenion a aseswyd?</i>
3	<i>A fydd y datblygiad yn hyfyw?</i>


Cyfraddau adeiladu tai a thargedau'r Cynllun Datblygu Lleol

34. Rhwng 1999 a 2009 cyfradd gwblhau y Cynllun oedd cyfartaledd o 89 y flwyddyn. Rhagwelwyd y byddai'r ffigur darparu o 1,349 yn rhoi rhyw 90 uned y flwyddyn dros gyfnod y Cynllun gyda'r hyblygrwydd o ddarpariaeth hap ychwanegol o 250. Mae'r cyfraddau adeiladu yn amrywio yn sylweddol yn Sir Benfro a bu gostyngiad sylweddol mewn cwblhau tai yn ystod y dirwasgiad. Mae hyn wedi gwella yn fwy diweddar. Mae'r cyfraddau adeiladu hyn yn awgrymu bod y diwydiant datblygu yn Sir Benfro yn ymatebol i raddau helaeth i'r farchnad dai gyffredinol ac i'r economi. Mae datblygiadau yn Sir Benfro yn ddatblygu pwrpasol i raddau helaeth at ofynion unigol yn hytrach nag yn hapfasnachol. O edrych ar gyfraddau adeiladu hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol nid yw'r gyfradd adeiladu cyson o 90 y flwyddyn erioed wedi ei gyrraedd.

Tabl 12 Cyflenwi Tai 2007 i 2015

	Targed Cwblhau Blynyddol	Cwblhau a gofnodwyd	Targed Cwblhau Tai Fforddiadwy neu'n cael eu hadeiladu mewn Blwyddyn ¹²	Cwblhau Tai Fforddiadwy neu'n cael eu hadeiladu a gofnodwyd
2007-2008	90	95	28	7
2008-2009	90	85	28	15
2009-2010	90	37	28	12
2010-2011	90	27	28	3
2011-2012	90	36	28	0
2012-2013	90	38	28	0
2013-2014	90	44	28	3
2014-2015	90	90	28	41
Cyfanswm	720	452	224	81

35. Mae'r graff isod yn dangos y diffyg hyd yn hyn a'r cyfartaledd cwblhau yn 57 uned y flwyddyn dros y cyfnod o 2007 i 2015.



36. Yn yr adran fonitro yn y Cynllun Datblygu Lleol rhestrir darpariaeth ar gyfer 1,600 o gartrefi (gan gynnwys y ffigur hap o 250). Mae gofyn i'r ffigur hwn gael ei adolygu o leiaf i gymryd i ystyriaeth beth fydd cyfradd y diwydiant adeiladu tai lleol yn debyg o fod ac i gydnabod y bydd hyn yn codi a gostwng yn flynyddol. Bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar dargedau cyflenwi tai fforddiadwy. Man cychwyn asesu darparu tai mewn Cynlluniau Datblygu

¹² Mae hyn yn golygu cael eu hadeiladu.

Lleol yw amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru.

37. Gweler y [Papur Cefndir ar Dai](#) am ragor o wybodaeth.

38. Mae perfformiad mewn ardaloedd penodol wedi bod yn gymysg.

39. Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y disgwyliadau yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Nid yw'r tir y disgwyliid y byddai'n cael ei ddefnyddio yn Ninbych-y-pysgod, Tyddewi ac mewn rhai Canolfannau Gwledig wedi cael ei wireddu. Mae mwy o fanylion am safleoedd unigol yn Nhabl 13 isod.

Tabl 13 Tai a Ddarparwyd yn erbyn y nifer Gofynnol 2007 i 2015

Aelwydydd	Ffigur Tai a Ddarparwyd 2007 i 2021	Tai a gwblhawyd 2007 i 2011	Cwblhawyd 2011 i 15	Tir â Chaniatâd Cynllunio Ebrill 2015	15 i 21 yn Ofynnol	Ffigur gofynnol blynyddol
Dinbych-y-pysgod	514	64	83	46	321	54
Trefdraeth	48	15	2	14	17	3
Saundersfoot	115	54	31	39	-9	-2
Tyddewi	134	13	9	5	107	18
Crymymch	15	0	0	18	-3	-1
Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad	523	99	83	65	276	46
Cyfanswm	1349	245	208	187	709	118

Sut mae hyn yn effeithio ar y Strategaeth y Cynllun

40. Bydd hyn yn golygu y byddai angen i'r ffigyrau darparu tai amlygu'n fwy cywir gallu'r farchnad dai leol i gyflenwi, ac felly ni fydd y targedau mwy uchelgeisiol o gyfraddau datblygu sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn cael ei ailadrodd. Bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar dargedau cyflenwi tai fforddiadwy. Bydd y mater hwn yn derbyn sylw fel rhan o'r adolygiad llawn sydd wedi deillio o'r cyflenwad isel o dir.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

3 *A all y Cynllun gael ei weithredu?*
A yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg?

Tai Fforddiadwy

41. Nid yw polisi tai fforddiadwy Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod, sef Polisi

45, yn llwyddo i gyflawni ei ganlyniad allweddol yn llawn o ran nifer y tai fforddiadwy y rhagwelir fydd yn cael eu hadeiladu neu'n cael eu hadeiladu erbyn targedau diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15. Dengys y dystiolaeth bod darparu tai fforddiadwy ar hyn o bryd yn disgyn yn brin o dargedau'r Awdurdod.

42. Rhwng 2007 a 2015 roedd cyfanswm o 81 o dai fforddiadwy naill ai wedi eu cwblhau neu wrthi'n cael eu hadeiladu, sef 36% o'r targed.

43. Yn gyfan gwbl, cwblhawyd cyfanswm o 452, sef 63% o'r targed cyffredinol.

44. Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau dros dro cyn yr Adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol i fynd i'r afael â'r mater. Mae'r dulliau o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod ar Dai Fforddiadwy wedi'u diweddarau ac a weithredir ar hyn o bryd (a fabwysiadwyd fis Tachwedd 2014) yn cael eu nodi yn yr Adroddiad ar y Prosiect Darparu Tai Fforddiadwy (y cyfeirir ato yn Atodiad 2 i'r [Adroddiad Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol Blynyddol 2014](#)). Yn gryno, mae newidiadau i lefel y tai fforddiadwy a ddisgwylir sy'n deillio o newidiadau mewn hyfywedd. Mae'r nifer yn cael ei leihau. Mae'r nifer a ddisgwylir o gyfraniadau tai fforddiadwy hefyd yn cael ei leihau yn gyffredinol. Rhagwelir y bydd y fethodoleg hon yn parhau yn y gwaith o Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Sut mae hyn yn effeithio ar Strategaeth y Cynllun

45. Mae gan strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol presennol dargedau uchelgeisiol ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Nid yw'r targedau hyn wedi eu gwireddu. Mae angen gwneud arfarniad wedi'i ddiweddarau o'r hyfywedd, a bydd hyn yn golygu ail-ystyried yr elfen o dai fforddiadwy sydd eu hangen mewn ardaloedd marchnad a'r hyn sydd eu hangen ar safleoedd unigol a neilltuwyd yn y Cynllun. Hefyd mae'r ddarpariaeth tai yn gyffredinol yn cael ei hailystyried sydd â goblygiadau o ran darparu tai fforddiadwy. Mae hyn yn golygu goblygiadau posibl i bob rhan o ardal y Cynllun gan gynnwys Canolfannau a glustnodwyd yn y Parc Cenedlaethol, ac felly mae angen gwneud adolygiad llawn yn hytrach nag adolygiad rhannol.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

3	<i>A fydd y datblygiad yn hyfyw?</i>
---	--------------------------------------

Safleoedd datblygu a glustnodir yn y Cynllun

46. Y disgwyl oedd y byddai 33% o'r tir a neilltuwyd wedi cael caniatâd cynllunio erbyn y cam adolygu (sef diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15). Mae'r camau a gymerwyd gyda phob safle a neilltuwyd yn cael eu nodi yn [Adroddiad Monitro Blynyddol 2015](#) (y sefyllfa ar Ebrill 2015). Bydd y camau hyn yn

parhau i gael eu monitro wrth i'r Cynllun newydd gael ei baratoi.

47. **Dyraniadau Tai:** mae 12.5% o dir a neilltuwyd ar gyfer tai o ran arwynebedd wedi cael caniatâd cynllunio; mae 18.4% o unedau a ddyrannwyd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae cyfanswm o 60 o dai wedi'u cwblhau ar safleoedd a ddyrannwyd sydd yn 20% o gyfanswm yr unedau a ddyrannwyd yn y Cynllun. Nid yw'r targed yn cael ei gyrraedd. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hailystyried fel rhan o'r Adolygu Cynllun Datblygu Lleol. Mae ardaloedd y Cynllun sydd i'w hadolygu o ran cyflenwi tir ar gyfer tai yn cael eu clustnodi o dan 'Cyflenwi Tir ar gyfer Tai' a 'Tai Fforddiadwy' uchod.
48. **Cyflogaeth/Defnydd Cymysg (heb gynnwys tai ar y farchnad):** Y targed oedd cael 33% o'r dyraniadau tir gyda chaniatâd erbyn y cam adolygu (diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15). Nid yw hyn yn cael ei gyflawni. Mae 3 safle wedi'u neilltuo fel y dangosir yn [Adroddiad Monitro Blynyddol 2015](#), ac nid oes camau pellach wedi'u cymryd. Ymhlith y rhesymau mae diffyg diddordeb gan y tiffeddiannwr, diffyg diddordeb datblygwr a materion ynghylch hyfywedd o ddod â safleoedd cyflogaeth ymlaen lle mae diffyg cyllid cyhoeddus. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hailystyried fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.
49. Wrth ddisgwyl am Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, cysylltwyd â pherchnogion ac asiantau safleoedd i weld beth yw eu bwriadau (anfonwyd llythyrau ar y 10fed o Dachwedd 2014). Lle na dderbyniwyd ymateb neu bod y bwriadau yn dal yn aneglur, anfonwyd llythyr arall (anfonwyd llythyrau ar y 19eg o Ragfyr 2014). Yn dilyn yr ymarferiad hwn mae'n dal yn ansicr a fydd rhai safleoedd dyrannu yn debygol o ddod ymlaen. Mae'r tablau isod wedi'u cymryd o Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol 2015.
50. **Cyfleusterau Cymunedol:** Y targed oedd cael 33% o'r dyraniadau tir gyda chaniatâd cynllunio erbyn y cam adolygu (diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15). Neilltuwyd dau safle yn y Cynllun ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol. Mae'r targed o 33% wedi'i wireddu gan fod un o'r dyraniadau wedi'i roi ar waith yn rhannol. Bydd dyfodol y dyraniadau yn cael eu hailystyried fel rhan o Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Byddai'r gwelliannau a ganiateir drwy ddyrannu tir yn gyraeddadwy o dan Bolisi 48 Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion Seilwaith heb yr angen am ddyraniad arall o dir.
51. **Cynlluniau Ffyrdd a Beicio:** Mae 7 Cynllun yn cael eu neilltuo yn Nhabl 10 o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae 2 gynllun wedi'u cwblhau, a gellir eu tynnu allan o'r Cynllun ar y cam Adolygu (RI2 ac RI7). Mae 3 chynllun angen trafod gyda Chyngor Sir Penfro fel rhan o Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol gan fod bwriadau yn y dyfodol, yn ôl pob golwg, yn newid (RI1, RI3 ac RI4). Mae gwaith ar y gweill ar y 2 gynllun sy'n weddill (RI5 ac RI6).

Allwedd i Dabl 14

Caniatâd Cynllunio wedi'i roi/safle wedi'i gwblhau	
Tirfeddiannwr neu'r datblygwr wrthi'n ymchwilio i weld ai dod â'r safle ymlaen i'w ddatblygu	
Dyraniad nad yw'n symud ymlaen, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> - Diffyg diddordeb gan y tirfeddiannwr - Yn aros am welliannau i'r farchnad dai - Seilwaith wedi'i gyfyngu'n sylweddol 	

Tabl 14 Dyraniadau sy'n cynnwys tai

	Lleoliad y Cynigion Cyfeirnod Map	Enw a Lleoliad y Safle	Cyfanswm Nifer yr Unedau¹³
1.	Aberlydan HA734	I'r de o Driftwood Close	10
2.	Aberlydan MA776	Tir i'r gogledd ddwyrain o Heol y Môr	35
3.	Crymych HA750	Safle'r Depo	18
4.	Dale HA382	Ffordd y Castell	12
5.	Dinas HA387	Gyferbyn â Theras Golwg y Bae	12
6.	Herbrandston HA732	I'r dwyrain o Neuadd Herbrandston	12
7.	Jameston HA436	I'r gogledd o Fferm Landway	6
8.	Jameston HA730	Gyferbyn â Bush Terrace	35
9.	Jameston HA821	Green Grove	5
10.	Lawrenni HA559	Ger Home Farm	30
11.	Gorsaf Maenorbŷr HA848	Cae gyferbyn ag Ysgol Maenorbŷr	19
12.	Gorsaf Maenorbŷr MA895	Tir sy'n rhan o Buttylands	15
13.	New Hedges HA813	Y tu cefn i Cross Park	31
14.	Trefdraeth HA825	I'r gogledd o Feidr Eglwys	20
15.	Saundersfoot MA777	Y tu ôl i Westy'r Cambrian, Saundersfoot	28
16.	Solfach HA384	Ger Bro Dawel	18
17.	Solfach HA792	Bank House, Lôn Whitchurch	12
18.	Tyddewi HA385	I'r gogledd o Twr-y-Felin	13
19.	Tyddewi HA737	I'r gorllewin o Heol Glasfryn	90
20.	Tyddewi HA789	Ger Ysgol Bro Dewi, Heol Non	10
21.	Llanismel MA733	Ger yr ysgol	40
22.	Dinbych-y-pysgod HA377	Brynhir	168
23.	Dinbych-y-pysgod HA723	Hen safle'r ysbyty	10
24.	Dinbych-y-pysgod HA724	Maes Parcio'r Rheithordy	50
25.	Dinbych-y-pysgod HA727	I'r gorllewin o Heol Arberth	25
26.	Dinbych-y-pysgod HA752	Maes Parcio Cae Butts, Dinbych-y-pysg.	80
27.	Dinbych-y-pysgod HA760	Safle'r Gronfa Ddŵr, Dinbych-y-pysgod	12
28.	Dinbych-y-pysgod MA706	Heol Uchaf y Parc, Dinbych-y-pysgod	14
29.	Dinbych-y-pysgod MA707	St. y Llew Gwyn/ Parc Ceirw, Din-y-pysg	48
30.	Dinbych-y-pysgod MA710	Lôn Sarsiant, Dinbych-y-pysgod	5
31.	Trefin HA738	I'r gorllewin o Heol Crwys	15
	Cyfanswm		898

¹³Yn amlygu nifer yr unedau oedd wedi cael caniatâd cynllunio (lle mae safle wedi cael caniatâd cynllunio ar Ebrill 2015). Cymerwyd y tabl o Adroddiad Monitro Blynyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2015

Allwedd i Dablau 15, 16 a 17

Caniatâd Cynllunio wedi'i roi/safle wedi'i gwblhau	
Tirfeddiannwr neu'r datblygwr wrthi'n ymchwilio i weld ai dod â'r safle ymlaen i'w ddatblygu	
Dyraniad nad yw'n symud ymlaen	

Tabl 15 Dyraniadau Safleoedd Cyflogaeth/Defnydd Cymysg (heb eu cynnwys yn Nhabl 14)

Lleoliad y Cynigion/ Cyfeirnod Map	Enw'r safle	Defnydd arfaethedig	Monitro
Trefdraeth MA232	Tir ger y Parc Busnes, Feidr Pen y Bont	Cymysg (Unedau Byw/ Gwaith)	Heb ei weithredu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio fis Mai 2009 ar gyfer uned ffatri newydd ar gyfran o'r tir hwn, cynllunio bellach wedi dod i ben. Nid oes gan y tirfeddiannwr unrhyw gynigion tymor byr ar gyfer y safle.
Tyddewi EA748	I'r de o Gynullidau Tyddewi	Cyflogaeth B1, B8, Cyfleuster Lleol Rheoli Gwastraff	Heb ei weithredu. Y tirfeddiannwr wedi dweud na fydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn derbyn sylw yn yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.
Tyddewi MA746	Rhwng Heol Glasfryn a Pharc Millard, Tyddewi	Cymysg (Unedau Byw/ Gwaith)	Heb ei weithredu.

Tabl 16 Cyfleusterau Cymunedol

Cyfeirnod	Enw a Lleoliad y safle	Defnydd	Monitro
CP829	Tir ar Orsaf Reilffordd Saundersfoot, Pentlepoir	Maes parcio	Peth trafodaethau cyn-ymgeisio wedi digwydd. Dim diweddariad pellach ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol 2015.
CP828	Gorsaf Maenorbŷr	Maes parcio	Cais rhif NP/13/82 wedi'i roi ar gyfer 5 lle parcio, 1 lle i'r anabl, lle parcio beiciau ac arwyddion cyfeirio. Dywed Cyngor Sir Penfro bod cost y gwaith wedi cynyddu uwchlaw'r gyllideb a neilltuwyd, ac nid oes ffynonellau eraill o ariannu wedi'u clustnodi hyd yn hyn er mwyn gallu cwblhau'r gwaith.

Tabl 17 Cynlluniau Ffyrdd a Beicio

Rhif y cynllun	Cynlluniau Ffyrdd/Beicio	Monitro
RI1	Gwella Pont New House A4075	Mae newid cwrs y ffordd yn annhebygol o ddigwydd yn awr. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu llwybr defnydd a rennir o Gylchfan y Garreg Las, yr Eagle Lodge, a rhai gwelliannau gweledd lleol. Gellid ei ddatblygu fesul cam gyda chyllid A106 o'r Garreg Las.
RI2	Llwybr Defnydd a Rennir i'r de o Gastell Caeriw	Y gwaith wedi'i gwblhau.
RI3	Gwella Troeon Sain Pedrog	Bellach mae Cyngor Sir Penfro yn ystyried fersiwn llai a lleol o'r cynllun gwreiddiol uchelgeisiol.
RI4	Gwelliant Cyffordd Heol Fan/B4316, Saundersfoot	Heb ei weithredu. Dim camau ymlaen hyd yn hyn.
RI5	Gumfreston i Ddinbych-y-pysgod Cam 3	Arwyddion rhybudd llifogydd awtomatig yn cael eu dylunio. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau yn 2015/16.
RI6	Feidir Glasfryn, Tyddewi	Sicrhawyd Ariannu Trafnidiaeth Lleol gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i gwblhau prynu tir, gwaith hwyluso a

Rhif y cynllun	Cynlluniau Ffyrdd/Beicio	Monitro
		pharatoi dogfennau tendro. Mae'r prif waith i'w wneud yn 2016/17 (yn amodol ar lwyddiant cais am Ariannu Trafnidiaeth Lleol yn y dyfodol).
RI7	A40 Pont Canaston	Cynllun wedi'i gwblhau ac agorwyd y ffordd ar yr 16 ^{eg} o Fawrth 2011.

Sut mae hyn yn effeithio ar Strategaeth y Cynllun

52. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r dyraniadau tir ar gyfer tai/cyflogaeth/defnydd cymysg a glustnodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae angen gwneud adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol gan y bydd angen i'r Awdurdod adolygu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn ddigonol i gwrdd ag amserlen y Cynllun newydd (2031), a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i'r gwaith o ddatblygu'r safleoedd sydd wedi'u neilltuo yn y Cynllun, ac er mwyn gallu pennu amserlen y gellir goresgyn cyfyngiadau. Bydd hyn yn golygu bod angen adolygu'r ffigurau darparu tai, paratoi Cofrestr o'r Safleoedd Ymgeisiol ac adolygu gofynion tai fforddiadwy. Mae gan hyn oblygiadau posibl i lawer o'r Canolfannau a glustnodwyd yn y Parc Cenedlaethol ac felly mae angen adolygiad llawn yn hytrach nag adolygiad rhannol

53. Bydd y dyraniad ar gyfer cyfleusterau cymunedol yng Ngorsaf Reilffordd Saundersfoot hefyd yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Hefyd bydd gofyn adolygu a diweddarau'r cynlluniau ffyrdd a beicio a restrir yn Nhabl 10 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cyfnod y Cynllun hyd at 2031. (Gweler [Papur Cefndir Trafnidiaeth Gynaliadwy.](#))

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol	
3	<i>A all y safleoedd a neilltuwyd gael eu cyflawni?</i>

Cyflwyno safleoedd tai fesul cam

54. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cyflwyno safleoedd tai a safleoedd defnydd cymysg yn raddol fesul cam (gweler paragraff 4.209, Tabl 8 ac Atodiad 2 i'r Cynllun Datblygu Lleol). Gwnaed hyn yn bennaf i gymryd i ystyriaeth yr angen i wella seilwaith neu i gynorthwyo i ymgorffori datblygiadau yn y Canolfannau.

55. Ystyrir bod parhau i gynnwys y cyfyngiad i gyflwyno safleoedd yn raddol fesul cam yn anodd i'w gyfiawnhau gan y bydd y diwydiant datblygu yn cymryd i ystyriaeth y gwelliannau i'r isadeiledd a raglennwyd a'r modd o ddarparu cyflenwad i gyfateb i'r galw wrth ddod â safleoedd ymlaen. O ganlyniad, bwriedir adolygu'r cyfyngiad fesul cam a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Gweler [Papur Cefndir Tai.](#)

Sut mae hyn yn effeithio ar Strategaeth y Cynllun

56. Nid yw hyn ynddo'i hun yn debygol o effeithio ar strategaeth y Cynllun o ystyried y gyfradd o ddatblygiadau yn gyffredinol yn Sir Benfro.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

2	<i>A ellir dangos y rhesymeg y tu ôl i'r polisi?</i>
3	<i>A all y Cynllun gael ei weithredu?</i>

Dangosydd Dylunio Cynaliadwy

57. **Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy:** Nid yw'r elfen honno o'r polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn yr adeilad gwreiddiol yn ogystal ag yn yr estyniad arfaethedig, wedi bod yn ymarferol ac nid yw'r Awdurdod bellach yn ei weithredu. Mae gofyn ei ddileu o'r Cynllun pan adolygir y Cynllun. (Cyfeirir at hyn yn yr [Adroddiad Monitro Blynyddol 2012](#)).

Sut mae hyn yn effeithio ar Strategaeth y Cynllun

58. Ni fydd hyn ynddo'i hun yn cael effaith sylweddol ar strategaeth y Cynllun.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

1	<i>A yw'n ystyried polisi cynllunio cenedlaethol?</i>
3	<i>A ellir ei weithredu?</i>

59. Un ystyriaeth bwysig wrth benderfynu a yw'r dystiolaeth yn gyfoes yw'r ffaith ei bod yn ofynnol i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gael oes weithredol ar ôl eu mabwysiadu o 10 mlynedd man lleiaf.¹⁴ Mae'n bwysig bod yr angen newydd, oherwydd yr amserlen hirach, yn cael ei glustnodi a'i ddatrys. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn rhedeg tan 2021 ac mae angen pennu dyddiad gorffen newydd felly i gydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol (h.y. 2031).

60. Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad o'r dystiolaeth i sicrhau ei fod yn gyfoes lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Gweler [Papur Cefndir Sail Tystiolaeth](#). Law yn llaw â'r papur hwn mae sylwadau ar unrhyw faterion sensitif o ran amser ac esboniad ar sut y bydd yr Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn ble a phryd y mae'n codi.

61. Yn gwyno:

- Mae elfennau o dystiolaeth fydd yn parhau i gael eu darparu a'u diweddarau (er enghraifft polisi cynllunio cenedlaethol) wrth i'r Cynllun fynd rhagddo, a bydd angen mynd i'r afael â'r materion ar yr adeg y maent yn codi. Darperir manylion yn y Papur Cefndir uchod.
- Mae tystiolaeth bellach yn ofynnol y bydd angen i'r Awdurdod ei darparu, sef:
 - i. Adroddiad ar Gyflenwi Tai Fforddiadwy (ffigurau Ardal Marchnad Dai) i'w baratoi cyn y cam ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir. Bydd hyn yn clustnodi'r gofynion o ran tai fforddiadwy ar gyfer is-ardaloedd y Cynllun.
 - ii. Papur Dewisiadau Amgen. Bydd y papur hwn yn archwilio'r opsiynau ar gyfer newid, a chaiff ei gyhoeddi gyntaf ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir.
 - iii. Papur Cefndir a Chofrestr o'r Safleoedd Ymgeisiol i'w gyhoeddi cyn y Cam Strategaeth a Ffefrir. Bydd hyn yn nodi'r meini prawf ar gyfer dewis safleoedd a chyfle i gyflwyno safleoedd.
 - iv. Arolwg o Dir Cyflogaeth (Sir Benfro) cyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd hyn yn gymorth wrth ystyried opsiynau polisi ar gyfer cyflogaeth.
 - v. Astudiaeth ar Weithredu Dyraniadau Tir (diweddariad) - gan gynnwys profion hyfywedd tai fforddiadwy. Mae angen yr

¹⁴ Tudalen 120 Llawlyfr ar Gynllun Datblygu Lleol Argraffiad 2 Awst 2015

astudiaeth hon i gyflwyno gwybodaeth ar y gallu i gyflawni'r safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun. I'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo.

- vi. Asesiad o'r Mannau Agored 2015. Bydd yr asesiad hwn yn nodi a yw'r cyflenwad presennol yn ddigonol. I'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffeirir yn y Cynllun Datblygu Lleol.
 - vii. Astudiaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Aneddiadau 2007 - Diweddariad ar gyfer Canolfannau Gwledig newydd. I'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffeirir yn y Cynllun Datblygu Lleol.
 - viii. Astudiaeth Manwerthu Rhanbarthol. I'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffeirir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr Astudiaeth yn cyflwyno gwybodaeth ar unrhyw ofynion i ddiweddarau fframwaith polisi manwerthu y Cynllun.
62. Yn gyffredinol, wrth i'r Cynllun fynd rhagddo, bydd gwybodaeth newydd yn golygu y bydd diweddariad yn debygol o ddigwydd, a bydd angen mynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau o ran y gwaith o adolygu'r Cynllun.
63. Nid yw pob elfen o'r sail tystiolaeth wedi dyddio. Er y bydd yr adolygiad llawn yn edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol o'r newydd, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ystyried bod rhai o'i dystiolaeth wreiddiol yn parhau i fod yn gadarn.
64. **Canolfannau Gwledig (Haen 4) Polisi 6 (Polisi Strategaeth):** Gan ragweld y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu, mae nifer y boblogaeth (amcangyfrif Cyfrifiad 2011), y cyfleusterau sydd ar gael¹⁵, hygyrchedd¹⁶, y cyflenwad dŵr a charthffosiaeth sydd ar gael ar gyfer trefi a phentrefi o amgylch y Parc Cenedlaethol, i gyd wedi cael eu gwirio. Bydd y diweddariad yn golygu y bydd Mapiau Mewnosod newydd ar gyfer Canolfannau yn cael eu hychwanegu. Bydd gofyn adolygu Polisi 6 i ychwanegu Canolfannau newydd. (Gweler y [Papur Cefndir ar Raddfa a Lleoliad Twf.](#))
65. Bydd hyn yn golygu bod angen diweddarau Polisi 6 i gynnwys/dileu'r Canolfannau hyn, a'r Map Cynigion i gynnwys a dileu Cynlluniau Mewnosod yn y Cyfnod Adneuo.
66. Gweler y [Papur Cefndir ar Raddfa a Lleoliad Twf.](#)

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

¹⁵ sydd ag o leiaf 3 o gyfleusterau a geir fel arfer mewn pentref bach (blwch postio, maes chwaraeon, ysgol gynradd, tafam, neuadd gymunedol, addoldy, siop cyfleustra, swyddfa'r post) neu os yw'n llai na hyn, o leiaf 1 siop cyfleustra

¹⁶ Mae hyn yn ymwneud â'r graddau y mae ardal neu gyfleuster yn hawdd mynd atynt ac y gellir eu defnyddio gan gymaint o bobl ag y bo modd, gan gynnwys unigolion ag anableddau.

2	<i>A yw'r Cynllun yn cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn a chredadwy?</i>
----------	--

67. Targeddi ar gyfer Ynni Adnewyddadwy: Roedd y targeddi ar gyfer cynhyrchu trydan adnewyddadwy a chynhyrchu gwres adnewyddadwy ar gyfer Polisi 33 Ynni Adnewyddadwy (Polisi Strategaeth) fel y nodir yng nghyfiawnhad rhesymedig y Polisi ac yn Atodiad 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol, yn deillio o astudiaeth o'r enw 'Datblygu Asesiad a Gwybodaeth Targeddi ar Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro' (2008). Roedd yr astudiaeth hon yn ystyried capasiti posibl y gwahanol fathau o dechnolegau trydan a chynhyrchu gwres adnewyddadwy yng nghyd-destun tirwedd y Parc Cenedlaethol, eu potensial economaidd a'r defnydd tebygol, y potensial ar gyfer cynlluniau cymunedol, a chyfyngiadau a chyfleoedd y rhwydwaith dosbarthu trydan. Ar sail y wybodaeth hon, roedd yr astudiaeth wedi rhoi amcangyfrifon o gyfraniad pob technoleg hyd at 2021 (mae dangosyddion 12a a 12b yn cynrychioli cyfanswm yr amcangyfrifon).

68. I lywio'r gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac i alluogi monitro perfformiad polisi yn barhaus, roedd gofyn diweddarau'r astudiaeth i adolygu'r defnydd a wneir o dechnolegau penodol, clustnodi technolegau lle mae rhywfaint mwy o gapasiti yn bodoli, a chlustnodi technolegau newydd ac i ddarparu set newydd o gyfraniadau a ragwelwyd ar gyfer dyddiad gorffen newydd y cynllun diwygiedig (2031). (Pennod 2 E Newid yn yr Hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy yr [Adroddiad Monitro Blynyddol 2015](#) ac y cyfeirir ato yn y [Papur Cefndir ar Newid yn yr Hinsawdd](#).) Gweler hefyd '[Diweddariad i Ddatblygu Asesiad a Gwybodaeth Targeddi ar Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro \(2008\)](#)' Ionawr 2016.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol	
1	<i>A yw'r Cynllun yn ystyried polisiau cenedlaethol?</i>
2	<i>A yw'n mynd i'r afael â materion allweddol?</i> <i>A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, cymesur a chredadwy?</i> <i>A ellir dangos y rhesymeg y tu ôl i bolisiau'r cynllun?</i> <i>A yw'n ceisio bodloni anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?</i>

69. Targeddi ar gyfer Darparu Tai Fforddiadwy: Y bwriad yw y bydd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer [yr Adroddiad ar y Prosiect Darparu Tai Fforddiadwy](#) a baratowyd yn 2014 yn cael ei defnyddio unwaith yn rhagor i

roi'r canrannau arfaethedig ar gyfer ardaloedd marchnad dai a'r Canolfannau yng nghyfnod Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol ac i asesu'r dyraniadau tai arfaethedig yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo. Gweler y [Papur Cefndir ar Dai](#).

70. **Safleoedd Cabanau Gwyliau, Carafanau a Gwersylla:** Mae polisi wedi bodoli ers amser maith o gyfyngu ar safleoedd cabanau gwyliau, carafanau a gwersylla newydd yn y Parc Cenedlaethol sy'n dyddio o Gynllun Fframwaith Dyfed a baratowyd yn y 1970au. Rhan o'r rhesymeg dros yr ymagwedd hon oedd yr effaith bosibl ar dirwedd y Parc Cenedlaethol a hefyd gwybod bod nifer o safleoedd yn y Parc Cenedlaethol oedd â rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygu pellach. Fodd bynnag, mae'r arolwg diweddaraf sy'n seiliedig ar ffigurau 2013/14 yn dangos bod y capasiti sydd ar gael wedi gostwng a bod hyn ar ben y ffaith bod galw cynyddol am safleoedd newydd, lleiniau ychwanegol ar safleoedd presennol a newid drosodd o leiniau carafanau teithiol/gwersylla i leiniau carafanau sefydlog. Hefyd mae'r Awdurdod yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am safleoedd sy'n gweithredu heb ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn codi cwestiwn ar sefyllfa bresennol y polisi. Comisiynwyd ymgynghorydd i asesu capasiti tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymgorffori rhagor o safleoedd cabanau, carafanau a lleiniau gwersylla. Defnyddir canlyniad yr Asesiad ([Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd i dderbyn Safleoedd Carafanau, Gwersylla a Chabanau](#)), a gyhoeddir gyda'r Adroddiad Adolygu hwn, fel sail ar gyfer ymgysylltu i lywio'r gwaith o adolygu polisiâu perthnasol y Cynllun a pha newidiadau y mae angen eu gwneud. (Cyfeirir at hyn ym Mhennod 2d o Adroddiad Monitro 2015.)

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

2	<p><i>A yw'n mynd i'r afael â materion allweddol?</i></p> <p><i>A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, cymesur a chredadwy?</i></p> <p><i>A ellir dangos y rhesymeg y tu ôl i bolisiau'r cynllun?</i></p> <p><i>A yw'n ceisio bodloni anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?</i></p>
----------	--

F Pa newidiadau cyd-destunol fu ers mabwysiadu'r Cynllun?

71. Nodir isod y newidiadau cyd-destunol hynny fydd neu all ddylanwadu'n sylweddol o bosibl ar y broses adolygu.

Cynlluniau Datblygu Lleol Cyfagos

72. Cafodd pob un o'r Cynlluniau cyfagos eu mabwysiadu ar ôl Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol hwn. Mae un o'r profion cadernid yn delio â p'un ag yw cynllun yn gydnaws â chynlluniau awdurdodau cyfagos.

Awdurdod cynllunio	Dyddiad Mabwysiadu CDLI	Dyddiadau cychwyn yr adolygiad 1 ^{af}
Cyngor Sir Penfro	Chwefror 2013	Chwefror 2017
Cyngor Sir Ceredigion	Ebrill 2013	Ebrill 2017
Cyngor Sir Caerfyrddin	Rhagfyr 2014	Rhagfyr 2018

73. Roedd pob awdurdod cyfagos wedi rhoi eu sylwadau eu hunain ynglŷn ag a oedd eu cynllun yn gydnaws â Chynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol i fodloni eu profion cadernid eu hunain.

74. Mae sail y dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cael ei adolygu. Hefyd mae'r Awdurdod wedi cysylltu ag awdurdodau cyfagos ar y mater hwn.

75. Mae unrhyw feysydd y gwelir bod angen eu newid yn cael eu rhestru yn yr Adroddiad Adolygu.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

2	<i>A yw'r Cynllun yn gydnaws ag awdurdodau cyfagos?</i>
----------	---

76. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r adolygiad drafod y posibiladau o baratoi cynllun ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Mae angen i'r cysylltiadau swyddogaethol a'r cyd-ddibyniaeth rhwng y cymunedau yn ardal y Parc Cenedlaethol ac yn ardal gynllunio y Cyngor Sir gael eu crynhoi a dod i gasgliad.

77. Bu'r ddau Awdurdod yn gweithio'n agos i baratoi tystiolaeth ar y cyd, fel oedd yn briodol, gan gynnwys gwaith ar y cyd ar y Datganiadau o Dir Cyffredin yng Nghynllun Datblygu Lleol Adneuo Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac ar Gyflwyno'r Cynllun, er mwyn dangos bod Cynllun Datblygu Lleol Parc

Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cydweddu â'r polisïau oedd ar y pryd yn dod i'r amlwg yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor Sir.

78. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar y ffordd ymlaen ar Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan ystyried y canlynol:

- Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor Sir ar gam llawer yn gynharach o weithredu, a thrwy ei Adroddiadau Monitro Blynnyddol am 2013-14 a 2014-15 wedi dangos bod y Cynllun yn gweithredu'n effeithiol, ac nid oes gofyn gwneud adolygiad llawn/ffurfiol o'r Cynllun tan 2017;
- Costau uwch ac amserlen hirach o gynhyrchu Adolygiad o'r Cynllun ar y Cyd, o ystyried yr angen i ail-edrych ar bob elfen o'r sail tystiolaeth;
- Yr angen am i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro symud ymlaen yn gyflym â'i Adolygiad o'r Cynllun sy'n ofynnol yn statudol, yn enwedig yng nghyd-destun o beidio gallu dangos cyflenwad tir dros bum mlynedd;
- Gall yr Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun lawer ynghynt, o ystyried bod dibenion statudol Parc Cenedlaethol yn fan cychwyn gan yr Awdurdod, ynghyd â'r ffaith bod yr ardal (29%) a'r boblogaeth (rhyw 20%) yn sylweddol llai, a'r raddfa lai o ymatebion i'r ymgynghori na'r hyn fyddai'n wir am Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor Sir;
- Y manteision i'r ddwy ochr (gan gynnwys arbedion costau posibl) o gydweithredu ar ddiweddarau'r sail tystiolaeth ar y cyd, lle bo'n briodol;
- Y rhesymeg dros gael amrywiol bolisïau sy'n deillio o dwf strategol/ amcanion atal a'r angen i amlygu dibenion y Parc Cenedlaethol;
- Yr angen am Ddatganiadau o Dir Cyffredin i ddangos cysondeb a chydweddu trawsffiniol;
- Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig (adroddiad 2015)
- Yr ansicrwydd ynghylch Ad-drefnu Llywodraeth Leol, o bosibl yn arwain at bwysau i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansawdd ar gyfer yr awdurdodau fydd newydd eu ffurfio cyn gynted â phosibl ar ôl yr ad-drefnu.

79. Byddai unrhyw symudiad i baratoi cynllun ar y cyd yn gofyn am ailasesiad sylfaenol o'r ddwy strategaeth, gyda llawer mwy o waith a thystiolaeth ategol yn ofynnol nag y rhagwelir fel arall ar gyfer adolygu Cynllun unigol. Ar gyfer y Cyngor, byddai adolygu eu Cynllun yn gynnar ac yn ddiangen yn golygu cryn gost ychwanegol a diangen (adnoddau staff ychwanegol) ac ar yr un pryd yn arwain at ansicrwydd di-fudd o ran gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ystod paratoi'r cynllun, gyda'r posibilrwydd o wynebu adolygiad pellach yn gynnar ar ôl Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

80. O ystyried y cefndir hwn, bydd y ddau Awdurdod yn parhau i gydweithio ymhellach ar sail tystiolaeth i ategu'r gwaith o weithredu ac adolygu Cynlluniau y ddau Awdurdod.

Cyfraith Genedlaethol, Polisiâu a Chynlluniau Datblygu Lleol eraill

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig

81. Ar y 29ain o Fedi 2014, comisiynodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Banel Annibynnol i gynnal adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru.
82. Dechreuodd yr adolygiad ar ddiwedd 2014 ac fe'i cynhaliwyd mewn 2 ran. Cadeiriwyd y panel adolygu gan yr Athro Terry Marsden o Brifysgol Caerdydd gyda John Lloyd Jones a Dr Ruth Williams yn aelodau.
83. Mae'r Adolygiad Annibynnol o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru yn gwneud 69 o argymhellion sy'n cwmpasu llu o gynigion a sylwadau ar bwrsasau, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio, a chyllid.
84. Ymhlith yr argymhellion mae'r canlynol:
- i. peidio â gwneud unrhyw newid i'r enw nac i statws cyfreithiol y parciau cenedlaethol na'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) inter twine
 - ii. dylai fod tri diben statudol i'r Parciau Cenedlaethol ac i'r AHNE o ran cadwraeth, lles corfforol a meddyliol, a mathau cynaliadwy o ddatblygu economaidd a chymunedol.
 - iii. cryfhau rôl cynnal a chyflawni cyrff eraill
 - iv. creu Pwyllgor Tirweddau Cenedlaethol.
85. Oherwydd maint a chwmpas yr argymhellion sylweddol, mae angen gwaith pellach yn awr i ddeall eu budd posibl a'u canlyniadau.
86. Bydd yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas AC yn arwain Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol, fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r parciau cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, grwpiau buddiannau, busnesau, a llywodraeth leol i gymryd rhan.
87. Bydd y grŵp yn archwilio'r argymhellion hyn ac yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau yn 2016.
88. Bydd y goblygiadau sy'n deillio o hyn o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu monitro a derbyn sylw pan fydd gofyn am hynny.

Twf Aelwydydd

89. Dywed Llywodraeth Cymru y bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol fod â dealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am dai yn eu hardal dros gyfnod y Cynllun. Bydd Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf

Llywodraeth Cymru ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Aseiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol, yn ffurfio rhan o sail tystiolaeth y Cynllun.

Dewis safle

90. Bydd gofyn i'r dull o ddewis safle a ddefnyddir i asesu safleoedd ymgeisiol gael ei adolygu yn erbyn newidiadau i baragraff 9.2.9 o Bolisi Cynllunio Cymru Rhifyn 8 Ionawr 2016 a'r cyngor a gynhwysir yn y Llawlyfr ar Gynllun Datblygu Lleol Argraffiad 2 Awst 2015. Bydd angen i'r Awdurdod adolygu'r cyflenwad tir ar gyfer tai er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn ddigonol i gwrdd ag amserlen y Cynllun newydd (2031), ac i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i ddatblygu'r safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun, ac i allu nodi'r amserlen y gall y cyfyngiadau gael eu goresgyn.
91. Bydd y dull o ddewis safleoedd yn cael ei gyhoeddi cyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffeirir yn y Cynllun Datblygu Lleol i roi arweiniad i'r rhai sy'n cyflwyno safleoedd ymgeisiol.

Polisi Cefn Gwlad 7a (mewnlenwi a chyfannu) a 7d (addasu)

92. Mae cyflwyno'r hawl i ganiatáu cynigion anghenion lleol mewn mannau na all fod yn hygyrch heblaw mewn car preifat yn golygu bod angen diweddarau Polisi 7a) a d) o'r Cynllun. Nid yw'r polisi yn caniatáu naill ai mewnlenwi na chyfannu nac addasu adeiladau mewn lleoliadau anhygyrch lle mae hynny ar gyfer 'angen lleol'. Mae'r diffiniad o angen lleol yn y Cynllun mabwysiedig ar hyn o bryd yn cyfeirio at dai fforddiadwy. Mae gofyn adolygu'r meini prawf hyn mewn perthynas â Nodyn Cyngor Technegol 6 Gorffennaf 2010, paragraff 2.2.3.

Polisi Cefn Gwlad 7d (addasu)

93. Mae Nodyn Cyngor Technegol 23, Chwefror 2014 paragraff 3.2.1 yn cyfeirio at y rôl bwysig sydd gan aildefnyddio ac addasu adeiladau yng nghefn gwlad o ran diwallu anghenion ardaloedd gwledig. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cyfeirio at fynd i'r afael â materion effaith traffig mewn perthynas â graddfa'r gweithgarwch arfaethedig a goresgyn gwrthwynebiadau i ganiatâd cynllunio ar sail traffig. Mae gofyn adolygu Polisi 7d) sy'n ymdrin ag addasu adeiladau addas gan fod dulliau'r Cynllun yn ceisio cyfyngu ar eu defnydd yn dibynnu a ydynt yn hygyrch ar gludiant cyhoeddus fel rhan o strategaeth ofodol y Cynllun.

Arallgyfeirio ar ffermydd

94. Mae Polisi Cynllunio Cymru 8^{fed} Argraffiad Ionawr 2016 paragraff 7.5.1 (bwled olaf ond un) yn cyfeirio at yr angen i gynnwys polisiâu ar arallgyfeirio

ar ffermydd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn dibynnu ar bolisi cynllunio cenedlaethol. Bydd polisi newydd ar arallgyfeirio ar ffermydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun newydd. Gweler y [Papur Cefndir ar Gyflogaeth](#). Mae mater allweddol y Cynllun ar gyfer datblygu yng nghefn gwlad (tudalen 11), y weledigaeth paragraff 3.4, amcanion ar dudalen 16, canlyniadau allweddol (tudalen 16), y Parc Cenedlaethol yn 2021 ar gyfer Cefn Gwlad (paragraff 4.44) yn parhau i fod yn ddilys. Bydd Polisi 7c) Cefn Gwlad a Pholisi 42b) Safleoedd Cyflogaeth/Unedau Gwaith/Byw yn cynnwys croesgyfeiriad at y polisi newydd. Bydd paragraff 4.53 y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r angen i gynnwys polisi newydd.

Gwastraff

95. Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-lunio'r polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r egwyddorion a'r polisïau oedd ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2001) bellach wedi cael eu diwygio er mwyn pennu rôl strategol a gofodol cynllunio defnydd tir o ran hwyluso'r blaenoriaethau rheoli gwastraff, yr amcanion a'r targedau newydd hyn. Bydd angen i'r polisi newydd hwn a'r canllawiau gael eu hystyried adeg adolygu'r Cynllun a'u cymryd i ystyriaeth yn y cyfamser. (Mae Pennod 2B o Adroddiad Monitro 2014 yn cyfeirio at hyn a'r [Papur Cefndir ar Wastraff](#)). Bydd hyn yn bennaf yn golygu adolygu'r cyfeirio at wasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn unig i gydnabod y cyd-destun polisi cenedlaethol lle byddai disgwyl y dylai cyfleusterau fod yn gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol (gweler y [Papur Cefndir ar Wastraff](#)) yn bennaf.

Cyflogaeth

96. Gan ystyried y newidiadau yn ddiweddar i'r polisi cynllunio cenedlaethol bydd angen adolygu sail tystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd y sail tystiolaeth presennol ei baratoi drwy ymgynghori'n llawn ag amrywiaeth o randdeiliaid ond yn arbennig Cyngor Sir Penfro sy'n darparu'r swyddogaeth datblygu economaidd ar gyfer Sir Benfro gyfan, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol. Yn sgîl y cyfarwyddyd bod awdurdodau yn cydweithio'n strategol, bydd angen ystyried hyn drwy drafod gydag awdurdodau eraill yn y rhanbarth hwn. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Penfro a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn paratoi Arolwg o Dir Cyflogaeth yn Sir Benfro fydd yn cael ei gyhoeddi ac yn cael ei gymryd i ystyriaeth cyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffeirir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Rhagwelir y bydd yr allbwn o gydweithredu strategol mwy rhanbarthol rhwng awdurdodau yn digwydd yn y tymor hir (sail tystiolaeth rhanbarthol a strategaeth ranbarthol). (Cyfeirir at hyn ym Mhennod 2D o [Adroddiad Monitro 2014](#).)

Polisi 42 Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gwaith maen prawf b)

97. Mae gofyn adolygu hyn. Mae'r Bennod 7 diwygiedig o Argraffiad 8 Polisi Cynllunio Cymru Ionawr 2016 a Nodyn Cyngor Technegol 23 Chwefror 2014 yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Dull dilyniannol o ddewis safle cyflogaeth (dewis cyntaf o fewn ffiniau aneddiadau, ail ddewis ymyl aneddiadau a thrydydd dewis safleoedd yng nghefn gwlad.) Mae paragraff 1.2.7 o Nodyn Cyngor Technegol 23 Datblygu Economaidd (Chwefror 2014) yn gymwys.
- Wrth wneud y dewis dylai'r awdurdod cynllunio ystyried swyddi, swyddi mewn lleoliadau newydd sydd ar gael, a theilyngdod arbennig (mae Adran 2.1 o Nodyn Cyngor Technegol 23 yn rhoi sylwadau manwl).
- Mewn ardaloedd gwledig gallai fod dau gyfraniad arbennig ychwanegol; cysoni swyddi a thai ag anghenion ehangu busnesau neu fusnesau newydd sydd angen ymuno â chlwstwr presennol. (Paragraff 3.13 o Nodyn Cyngor Technegol 23).

98. Mae Pennod 2D [Adroddiad Monitro 2014](#) a'r [Papur Cefndir ar Gyflogaeth](#) yn cyfeirio at hyn.

Darpariaeth Wrth Gefn

99. Derbynnir yn gyffredinol bod 10% o ddarpariaeth wrth gefn yn elfen resymol o hyblygrwydd mewn cynlluniau datblygu pan gafodd hynny ei brofi mewn Archwiliadau cyfredol. Mae arolygwyr hefyd yn ystyried amgylchiadau ardaloedd Cynllun unigol, ac mae adroddiad Arolygydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyfeirio at dderbyn canran is o ystyried y posibilrwydd na fydd y safleoedd yn y Cynllun yn cyflawni gystal ag y rhagwelwyd ac effaith neilltuo tir ychwanegol yn nhirwedd sensitif y Parc Cenedlaethol. Mae goblygiadau diweddarau'r ddarpariaeth tai ar gyfer y Cynllun yn cael eu disgrifio'n fanwl yn gynharach yn yr Adroddiad hwn.

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

A yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau priodol wrth gefn?

Mapio Cyfyngiadau

100. Mae'r Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2 Awst 2015, tudalen 16) yn nodi lle mae darluniadau gofodol yn cael eu pennu gan fecanweithiau ar wahân i'r Cynllun Datblygu Lleol, nad oes angen iddynt gael eu dangos ar y Map Cynigion - yn y sefyllfaoedd hyn gall defnyddio Map Cyfyngiadau fod yn fuddiol. Gall Map Cyfyngiadau ddangos, er enghraifft, ddarluniadau gofodol

a bennir gan Fapiau Cyngor Datblygu TAN15 neu ddynodiadau tirwedd statudol. Gall hyn fod yn fuddiol yn yr ystyr y gall y map gael ei newid yn hawdd i gymryd y newidiadau sydd heb eu penderfynu gan y Cynllun Datblygu Lleol i ystyriaeth. Nid yw'r Map Cyfyngiadau, yn wahanol i'r Map Cynigion, yn ofynnol yn statudol ac nid yw'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Os cynhyrchir Map Cyfyngiadau, yna mae'n rhaid i'w statws gael ei wneud yn glir; dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ei gyfeirnoddi a rhestru'r dynodiadau y mae'n cynnwys. Bydd Map Cyfyngiadau yn cael ei baratoi ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Adroddiad Craffu ar weithgarwch economaidd

101. Cafodd yr adroddiad gan y Cyd-Bwyllgor Craffu ar effaith polisiâu a gwaith yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar weithgarwch economaidd (i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Eryri a Sir Benfro) ei gytuno gan yr Awdurdod hwn ar y 29ain o Orffennaf 2015. Bydd yr argymhellion perthnasol yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyfeirir at hyn ym Mhennod 2D o'r Adroddiad Monitro hwn, yn ogystal ag yn y [Papur Cefndir ar Gyflogaeth](#). Mae'r argymhellion perthnasol yn ymwneud â hyblygrwydd a monitro (y ddau yn brofion cadernid ar gyfer Cynllun) a chyswllt â'r awdurdod datblygu economaidd. Cyfeirir at hyn yn y [Papur Cefndir ar Gyflogaeth](#).

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol	
2	<i>A yw'r Cynllun yn mynd i'r afael â materion allweddol?</i>
3	<i>A yw'r Cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau priodol wrth gefn? A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?</i>

Hygyrchedd yng Nghefn Gwlad

102. **Polisi 7a (mewnlenwi a chyfannu) a Pholisi 7d (addasu) (Polisi Strategaeth):** Mae strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol wedi cyfeirio datblygiadau newydd i raddau helaeth i Ganolfannau a glustnodwyd lle mae ystod o gyfleusterau a gwasanaethau ar gael. Y tu allan i'r Canolfannau, mae datblygiadau yn cael eu cyfyngu i addasu adeiladau addas neu mewnlenni priodol a chyfannu mewn grwpiau o adeiladau. Mae gallu defnyddwyr y safle i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau drwy ddulliau heblaw am gar preifat yn ystyriaeth bwysig yn yr achosion hyn, ac mae

Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod (a fabwysiadwyd fis Mehefin 2013) yn nodi sut mae hyn yn cael ei asesu. Mae'r dull o asesu hygyrchedd, ar sail achos-wrth-achos drwy ddefnyddio'r meini prawf a gynhwysir yn y canllawiau, yn profi i fod yn heriol mewn awdurdod cynllunio sy'n wledig i bob pwrpas, ac mae ceisiadau yn cael eu penderfynu yn groes i'r argymhelliad. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. (Cyfeirir at hyn ym Mhennod 2 o Adroddiad Monitro 2015)

Mae angen gwneud y newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r Profion Cadernid canlynol

A yw'r Cynllun yn mynd i'r afael â materion allweddol?

Cynllun Addasu Niwgwyl

103. Mae Niwgwyl wedi'i ddiffinio fel Canolfan yn y Cynllun Datblygu Lleol gyda ffin Canolfan. Mae rhannau o'r pentref sy'n agos i'r traethlin ac o fewn ffin y Ganolfan mewn parth llifogydd C2. Mae astudiaeth a baratowyd ar gyfer Cyngor Sir Penfro wedi amlygu mai oes gyfyngedig sydd i'r amddiffynfeydd arfordirol ar hyn o bryd sy'n golygu effeithiau ar y pentref ac ar y brif ffordd sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir. Bydd y cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 15, Llifogydd, yn berthnasol wrth ystyried unrhyw gynigion o fewn yr ardal parth llifogydd. Ni fydd defnydd risg uchel megis tai yn cael ei ganiatáu o fewn y parth llifogydd.
104. Mae'r gwaith o asesu'r angen am ffordd gyswllt newydd a phennu llwybr ar gyfer y ffordd yn Niwgwyl heb amserlen ar hyn o bryd. Mae Cyngor Sir Penfro yn mynd ati i hwyluso'r gwaith drwy ddefnyddio Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae'n annhebygol y bydd llwybr diffiniol wedi'i glustnodi yn ystod y cyfnod o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac felly bydd angen ystyried hyn eto mewn adolygiadau o'r Cynllun yn y dyfodol.
105. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd amlygu a monitro materion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Niwgwyl.

G Arfarnu Cynaliadwyedd ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd

106. Gan y bydd y Cynllun yn Gynllun newydd bydd pob cam o'r Arfarnu Cynaliadwyedd a pharatoi Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei wneud.
107. Mae'r pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol wedi clustnodi materion penodol y mae angen eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae [Adroddiad Monitro Blynyddol 2015](#) yn nodi mai o fewn cwmpas y Cynllun Datblygu Lleol a'i ddogfennau canllawiau cynllunio atodol bod y Cynllun ar y cyfan yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion arfarnu cynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae rhai materion wedi'u clustnodi a allai ddod yn fwy arwyddocaol yn y dyfodol os nad ydynt yn cael eu monitro ac yn derbyn sylw mewn modd cynaliadwy. Y materion hyn yw;

- Newidiadau mewn ymagwedd tuag at ddatblygu yng nghefn gwlad Polisi 7a Cefn Gwlad (mewnlenni a chyfannu) a Pholisi 7d (addasu).
- Lleihau'r cyfleoedd i gael dyluniad mwy cynaliadwy yn y prif dŷ wrth gymeradwyo estyniad i adeilad (Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy).
- Newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol ynglŷn â dylunio cynaliadwy yn rhoi cyfle i gymryd golwg o'r newydd ar ddangosyddion a thargedau o dan Bolisi 29 Dylunio Cynaliadwy.
- Cario Asesiad yr Awdurdod o Ynni Adnewyddadwy ymlaen i 2031.
- Y goblygiadau cynaliadwyedd ar gyfer newid polisi yn dilyn paratoi'r Asesiad o Gapasiti Carafanau, Gwersylla a Bythynod Gwyliau.

108. Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori'n anffurfiol¹⁷ ar yr Adroddiad Adolygu drafft cyn iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 15 Mehefin 2016. Mae'r ymgynghori wedi helpu i lywio cwmpas y newidiadau sydd eu hangen. Hefyd ymgynghorir ar yr Adroddiad Adolygu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.¹⁸
109. Mae'r camau o baratoi'r Cynllun wedi'u nodi ar [wefan](#) yr Awdurdod.
110. Gan mai Cynllun newydd fydd y Cynllun hwn, fe fydd, yn ei wahanol ffurfiau, yn agored i ymgynghori a rhoi sylwadau wrth iddo fynd rhagddo drwy'r camau cyn cael ei fabwysiadu. Nid dim ond y meysydd a glustnodwyd gan yr Awdurdod ar gyfer newid fydd yr unig bynciau o ymgynghori.
111. Mae'r Papurau Cefndir a'r dystiolaeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad Adolygu hwn yn helpu i glustnodi meysydd o newid. Mae'r Papurau Cefndir a'r sail tystiolaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r adroddiad hwn ar [wefan](#) yr Awdurdod. Byddant yn cael eu diweddarau a'u diwygio yn ôl yr angen wrth i'r Cynllun fynd rhagddo i'w fabwysiadu.
112. Mae Cytundeb Cyflawni diwygiedig y Cynllun yn cynnwys amserlen ar gyfer paratoi Cynllun newydd a'r dulliau i'w defnyddio o ymgysylltu.
113. Bydd y gwaith o baratoi'r Adroddiad ar Gwmpas Arfarnu Cynaliadwyedd hefyd yn destun ymgynghori ffurfiol.
114. Cwblhawyd yr Awdurdod yr ymarferion ymgysylltu hyn a chymeradwydyd y dogfennau hyn [ym](#) mis Mehefin 2016. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni gan Lywodraeth Cymru ar 25 Gorffennaf 2016.
115. Y cam nesaf fydd gwahodd cyflwyno safleoedd ymgeisiol. Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi meini prawf ar gyfer dewis safleoedd ac yn gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno safleoedd.

Cam	Prif ddiben
Adroddiad Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> Clustnodi'r rhannau o'r Cynllun Datblygu Lleol y mae angen eu diwygio. Cyhoeddi papurau cefndir (sail tystiolaeth) i ategu'r adolygu.
Cytundeb Cyflawni	<ul style="list-style-type: none"> Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Cynllun Cynnwys y Gymuned sy'n amlinellu egwyddorion ymgysylltu â'r gymuned.
Safleoedd Ymgeisiol	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi meini prawf ar gyfer dewis safle. Gwahodd cyflwyno safle.
Strategaeth a Ffeirir	<ul style="list-style-type: none"> Nodi'r polisiau strategol allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol

Rydyn ni yma →

¹⁷ Nid yw hyn yn ofyniad statudol ond yn rhoi cyfle i roi mewnbwn yn gynnar.

¹⁸ Rheoliad 15 Ymgynghori Cyn-adneuo ar y Strategaeth a Ffeirir.

	<ul style="list-style-type: none"> • Clustnodi safleoedd sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth
Cynllun Adneuo	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi a chyhoeddi'r polisiâu manwl a'r map cynigion.
Cyflwyno	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r Cynllun a'r dystiolaeth ategol i'r Arolygiaeth Gynllunio.
Archwilio	<ul style="list-style-type: none"> • Arolygydd annibynnol yn asesu cademid y Cynllun.
Mabwysiadu	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Cynllun ac yn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

I Rhestr Termau

Deddf 2004	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
Adroddiad Monitro Blyneddol	Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae'r polisïau yn y cynllun datblygu lleol yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.
Gwaelodlin	Disgrifiad o gyflwr presennol ardal i fesur newid yn ei erbyn.
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth	Cynllun sy'n pennu amcanion a chymau gweithredu ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth, gyda thargedau mesuradwy, sydd â'r nod o warchod a gwella natur ar draws cymunedau drwy ddwyn ynghyd yr holl fuddiannau drwy gynnwys sectorau megis amaethyddiaeth a busnes yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Mae'r camau o weithredu yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn partneriaeth ac o wneud hynny yn amlygu blaenoriaethau lleol yn ogystal ag anghenion bioamrywiaeth.
Safleoedd Ymgeisiol	Safleoedd Ymgeisiol yw'r rhai a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel dyraniadau mewn Cynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg.
Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol	Cofrestr o safleoedd ymgeisiol a baratowyd yn dilyn galwad am safleoedd posibl gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Ardoll Seilwaith Cymunedol	Tâl cynllunio yw Ardoll Seilwaith Cymunedol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 fel cyfrwng i awdurdodau cynllunio lleol helpu i gyflawni isadeiledd i gynnal datblygu eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.
Cymuned	Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac felly'n ffurfio cymunedau buddiant.
Cynllun Cynnwys Cymunedau	Yn pennu'r cynllun prosiect a pholisïau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol. Cyflwynir y Cynllun Cynnwys Cymunedau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni i gytuno arno.
Strategaeth Gymunedol	Yn ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: Adranau 37-46) gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd. Gweler y "Cynllun Integredig Sengl".
Adeiladu consensws	Proses o ddeialog gynnar gyda grwpiau buddiant a dargedir i ddeall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau o weithredu.
Ymgynghori	Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu gyfres o bynciau, neu ddogfen ddrafft.
Corff ymgynghori	Awdurdod sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol sy'n ymwneud ag effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni ac y mae'n rhaid ymgynghori â'r Awdurdod hwnnw o dan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol; h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw.
Ymarferiad ymgynghori	Prosiect ymgynghori unigol sy'n canolbwyntio ar amcan diffiniedig ac sydd fel arfer yn rhan o raglen ymgynghori gyffredinol.
Dangosydd Cyd-destunol	Dangosydd a ddefnyddir i fonitro newidiadau yn y cyd-destun y mae'r cynllun yn cael ei weithredu.
Cytundeb Cyflawni	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i gytuno arno.
Dogfennau Adneuo	Gweler "Dogfennau Cynllun Datblygu Lleol (neu Adneuo)".
Polisïau rheoli datblygu	Cyfres o bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf fydd yn sicrhau bod pob datblygiad o fewn yr ardal yn bodloni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth.
Dulliau deialog	Gwahanol dechnegau o ryngweithio sy'n adeiladu deialog parhaus rhwng ac ymhlith grwpiau yr effeithir arnynt.
Ymgysylltu	Proses sy'n annog ystyriaeth sylweddol mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/adran o'r gymuned.
Adroddiad amgylcheddol	Dogfen sy'n ofynnol gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n clustnodi, yn disgrifio ac yn arfarnu effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr

	amgylchedd o weithredu'r cynllun, gweler yr Adroddiad ar Arfarniad o Gynaliadwyedd.
Sail tystiolaeth	Dehongli Gwaelodlin neu wybodaeth/data arall i roi sail i bolisi'r cynllun.
Newidiadau â Ffocws	Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo cyn cyflwyno'r cynllun, sef newidiadau sy'n gyfyngedig iawn o ran nifer, ac sy'n amlygu darnau allweddol o dystiolaeth, ond nad ydynt yn mynd at wraidd y cynllun.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Asesiad sgrinio a phriodol o opsiynau sy'n ofynnol o dan Ran 6 Pennod 8 y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) - proses ailadroddol cydnabyddedig sy'n helpu i bennu effaith arwyddocaol debygol ar gynllun neu raglen a (lle bo'n briodol) yn asesu effeithiau andwyol ar uniondeb safle Ewropeaidd. Mae'n ofynnol i'r asesiad gael ei wneud gan awdurdod cymwys mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol (yn unigol ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 o Nodyn Cyngor Technegol 5), neu fel mater o bolisi "safle Ewropeaidd" arfaethedig neu safle Ramsar, o dan ddarpariaethau Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb CE 92/43/ECC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), rheoliadau 61 a 102 o'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'u diwygiwyd) 2010 a rheoliad 25 o Reoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007.
Dangosydd	Mesur o newidynnau dros gyfnod, a ddefnyddir yn aml i fesur cyflawni amcanion.
Adroddiad Cychwynnol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd	Term a ddefnyddir yng Nghynllun Datblygu Lleol Cymru i gyfeirio at yr Adroddiad ar Arfarniad o Gynaliadwyedd, a gynhyrwyd yn ystod y cam Strategaeth a Ffeirir. Mae hyn yn asesu opsiynau'r Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r adroddiad wedyn yn cael ei ehangu yn y cam Cynllun Datblygu Lleol Adneuo a'i gwblhau ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu.
Ymgysylltu	Term cyffredinol i gynnwys technegau cyfranogi ac ymgynghori.
LANDMAP	LANDMAP yw'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn ffurfiol ar gyfer asesu tirwedd yng Nghymru; felly dylai'r holl waith tirwedd ac asesiadau o'r effeithiau sy'n deillio o gynigion sy'n effeithio ar y dirwedd yng Nghymru, gynnwys LANDMAP
Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisiau ardal-gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a lle bo angen, polisiau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol o newid a gwarchodaeth. Rhaid i bolisiau a dyraniadau gael eu dangos yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun.
Dogfennau Cynllun Datblygu Lleol (neu Adneuo)	Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol adneuo, yr adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr o safleoedd ymgeisiol, yr Adroddiad Adolygu (os yn briodol), unrhyw ddogfennau ategol perthnasol.
Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI)	Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Lleol; h.y. Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref, neu Awdurdod Parc Cenedlaethol.
Partneriaeth strategaeth leol	Partneriaethau o randdeiliaid sy'n dwyn ynghyd y darparwyr gwasanaeth, y sectorau preifat, cymunedol a gwirfoddol, i glustnodi a diwallu anghenion lleol yn fwy effeithiol ac mewn ffordd gydgyssylltiedig; cymryd rhan fel arfer mewn cynhyrchu a chynhyrchu Cynllun Integredig Sengl.
Cynllun Llesiant Lleol	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol; y bwriad yw y bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl erbyn Ebrill 2018 (adran 39).

Materion sy'n Codi – Newid	Newid ar ôl cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol, lle mae'r Arolygydd penodedig yn dod i'r casgliad bod y newid yn angenrheidiol ar gyfer cadernid ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad.
Cynllun Morol	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a baratowyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Lliniaru	Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau andwyol arwyddocaol.
Cynllun Rheol'r Parc Cenedlaethol	Mewn ardaloedd parciau cenedlaethol y Cynllun Rheol'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen bolisi strategol trosiwaol, sy'n cydlynu ac yn integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithredoedd eraill lle mae'r rhain yn effeithio ar ddibenion a dyletswyddau'r Parc; dylai lywio'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bwysig bod y Cynllun(iau) Integredig Sengl yn asio â Chynllun Rheol'r Parc Cenedlaethol.
Amcan	Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan nodi cyfeiriad y newid mewn tueddiadau a ddymunir.
Dangosydd allbwn	Dangosydd sy'n mesur allbwn uniongyrchol y cynllun. Mae'r dangosyddion hyn yn mesur y camau ymlaen mewn cyflawni amcanion, targedau a pholisïau'r cynllun.
Cyfranogiad	Proses lle gall rhanddeiliaid a'r gymuned ryng-gysylltu â gwneuthurwyr y cynllun.
Partneriaid	Adrannau eraill awdurdod lleol/Parc Cenedlaethol a chyrff statudol lle bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Efallai y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at lunio rhannau perthnasol o'r Cynllun Datblygu Lleol.
Dogfennau cynigion cyn-adneuo	Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, yr opsiynau strategol, y strategaeth a ffeirir, polisïau allweddol, adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, y gofrestr o safleoedd ymgeisiol, yr Adroddiad Adolygu (os yn briodol).
Cam cyn-adneuo	Y camau cyfranogi ac ymgynghori cyn adneuo; mae'r Llawlyfr yn cyfeirio at y cam Opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffeirir sy'n ymwneud â'r weithdrefn cynllun llawn; mae'r gofynion llai yn ymwneud â'r weithdrefn ffurf fer o adolygu'r cynllun.
Adroddiad Adolygu	Yr adroddiad statudol sy'n ofynnol o dan A69 o Ddeddf 2004 a/neu Reoliad 41; i ddod i'r casgliad ar y weithdrefn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i'w dilyn yn seiliedig ar asesiad clir o'r hyn sydd wedi cael ei ystyried a'r hyn sydd angen ei newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth.
Cwmpas Arfarniad Cynaliadwyedd	Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau a'r opsiynau cynaliadwyedd sydd angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)	Cytundeb gydag asiantaeth statudol sy'n nodi'r safonau y bydd yn anelu at eu cyrraedd, a'r costau sy'n codi. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno ar un gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas ag archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol, gan nodi'r amserlen debygol a chost yr archwiliad a rhoi canllawiau clir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar natur eu cyfrifoldebau eu hunain.
Gweithdrefn adolygu ffurf fer	Gall fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i gyflawnhau ymgymryd â'r weithdrefn adolygu cynllun yn llawn.
Cynllun Integredig Sengl	Cyflawni dyletswyddau statudol a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu - Cydymdrechu", LIC 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; a baratowyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Gweler "Cynlluniau Llesiant Lleol" sydd i ddisodli Cynlluniau Integredig Sengl.
Effaith arwyddocaol	Effeithiau sy'n arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun (mae Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhoi meini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd tebygol yr effeithiau ar yr amgylchedd).
Dangosydd Effeithiau Arwyddocaol	Dangosydd sy'n mesur effeithiau arwyddocaol y cynllun.
Dyraniadau safle-benodol	Dyraniadau o safleoedd (cynigion) ar gyfer defnydd neu ddatblygiad penodol neu gymysg a geir mewn cynllun datblygu lleol. Bydd polisïau yn clustnodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol. Bydd dyraniadau yn cael eu dangos ar y map cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol.
Cadernid	Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i Gynllun Datblygu Lleol gael ei bennu yn gynllun 'cadarn' gan yr Arolygwr archwilio (A64 o Ddeddf 2004). Mae'r profion cadernid a gwiriadau yn cael eu clustnodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (pennod 2) ac yn y Llawlyfr (pennod 8).
Rhanddeiliaid	Buddiannau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y Cynllun Datblygu Lleol

	(a/neu Asesiad Amgylcheddol Strategol) - cyfranogiad ar y cyfan drwy gyrrff cynrychiadol.
Datganiad Tir Cyffredin	Diben Datganiad Tir Cyffredin yw sefydlu'r prif feysydd o gytundeb rhwng dau barti neu fwy ar fater penodol.
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol sy'n gymwys i gynlluniau a rhaglenni. Mae'r broses Arfarnu Amgylcheddol Strategol yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a ddiffinnir ar lefel Ewropeaidd - Cyfarwyddeb 2001/42 /EC. Mae Rheoliadau Aseidiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau AAS) yn gofyn am "asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir".
Canllawiau Cynllunio Atodol	Gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid yw'n destun archwiliad annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r cynllun datblygu ac â'r polisïau cynllunio cenedlaethol.
Arfarniad o Gynaliadwyedd	Cyfrwng i arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn amlygu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae gofyn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol o dan A62(6) o Ddeddf 2004 gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o Arfarnu Cynaliadwyedd yn ymgorffori'n llawn ofynion y Rheoliadau Arfarniad Amgylcheddol Strategol. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Llawlyfr hwn i gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni bai y gwneir yn glir fel arall.
Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd	Mae hwn yn cynnwys amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a glustnodwyd, y mae opsiynau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu harfarnu yn eu herbyn.
Adroddiad ar Arfarniad o Gynaliadwyedd	Dogfen y mae'n ofynnol i'w chynhyrchu fel rhan o'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar gynaliadwyedd o weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol, sydd hefyd yn bodloni'r gofyniad am Adroddiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau Arfarniad Amgylcheddol Strategol. Mae A62(6) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol. - Mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei gynhyrchu gyntaf yn y cam Strategaeth a Ffebrir (Adroddiad Interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd), a'i ehangu yn y cam Cynllun Datblygu Lleol Adneuo a'i gwblhau yn derfynol ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu.
Cynllun Gofodol Cymru	Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan A60 o Ddeddf 2004, sy'n nodi fframwaith strategol i lywio datblygiad ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, p'un ag yw'r rhain yn ymwneud â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol neu beidio. O dan A62(5)(b) o Ddeddf 2004, rhaid i awdurdod cynllunio lleol roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol.